# Pam ydyn ni'n aros o hyd?

## Oedi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru

Gorffennaf 2023



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | 3 |
| **1. Cyflwyniad** | 5 |
| **2. Pwrpas y gwaith ymchwil** | 8 |
| **3. Dull** | 10 |
| **4. Canfyddiadau:** | 12 |
| Problemau gyda phrosesau casglu data yn parhau | 12 |
| Y mathau o alwadau mae Cyngor Age Cymru'n eu derbyn | 13 |
| Oedi cyn derbyn asesiadau | 15 |
| Troi ceisiadau'n gynlluniau gofal | 18 |
| Aros am ofal | 19 |
| Cyfathrebiadau | 21 |
| **5. Mynd i'r afael â'r problemau** | 22 |
| Sut mae awdurdodau lleol yn lleihau rhestrau aros | 22 |
| Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl | 24 |
| Gofal cartref | 26 |
| Newid canolfannau dydd | 28 |
| Cynyddu gwydnwch cymunedol | 29 |
| **6. Casgliadau** | 30 |
| **7. Argymhellion** | 32 |
| **Cyfeiriadau** | 34 |
| **Tablau** | |
| Cyfnod o amser ar gyfer asesiad – cymhariaeth dros 3 blynedd | 15 |
| Cymhariaeth dros dair blynedd - cyfnod o amser ar gyfer asesu pobl dros 55 oed am eu hanghenion gofal mewn 10 awdurdod lleol | 16 |
| Cymhariaeth o nifer o asesiadau a gafodd eu cwblhau dros gyfnod o 3 blynedd mewn 10 Awdurdod Lleol | 17 |
| Cymharu cyfraddau 6 Awdurdod Lleol unigol, o ddechrau asesiad tan fod gofal ar waith | 18 |
| Cyfnod o amser i ddarparu gofal i bobl dros 55 oed ar ôl iddynt gael eu hasesu - cymhariaeth dros 3 blynedd | 19 |
| Cyfnod o amser i ddarparu gofal - cymhariaeth dros 3 blynedd | 20 |



## Diolchiadau

Hoffai Age Cymru ddiolch i'r holl bobl hŷn wnaeth siarad â ni am eu profiadau o fynychu gofal cymdeithasol.  Rydyn ni'n ddiolchgar i'r 10 awdurdod lleol wnaeth siarad â ni am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd.  Hoffwn hefyd ddiolch i eiriolwyr ledled Cymru wnaeth gwrdd â ni a'n helpu i ffocysu'r gwaith hwn eleni, a Fforwm Gofal Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am eu hamser a'r sgyrsiau gonest sydd wedi ein helpu i gwblhau'r adroddiad hwn.

# Crynodeb Gweithredol

## Y gwaith ymchwil

Dyma ail adroddiad blynyddol Age Cymru ar oedi wrth i bobl sy'n 55 oed a hŷn geisio mynychu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Llynedd, roedd ein prosiect eiriolaeth dementia, ein prosiect eiriolaeth HOPE (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu) a Chyngor Age Cymru oll yn nodi bod oedi difrifol wrth i bobl hŷn geisio cael eu hasesu gan y gwasanaeth gofal cymdeithasol, yn ogystal ag oedi wrth ddod o hyd i becynnau gofal wedi i asesiad gael ei gwblhau.

Blwyddyn wedi'r adroddiad hwn roeddwn ni eisiau gwybod os oedd newidiadau gan Awdurdodau Lleol wedi gwella'r ffordd roedd pobl hŷn yn mynychu gofal cymdeithasol.

## Casgliadau

1. Mae yna ddarlun yn ymddangos o boblogaeth yng Nghymru sy'n llai iach wedi prif gyfnod y pandemig. Mae'n bosib gweld hyn wrth edrych ar nifer y bobl hŷn sy'n troi at ofal cymdeithasol er mwyn dod o hyd i help, a pha mor ddwys yw eu hanghenion.
2. Mae ymdrechion i adfer gofal cymdeithasol wedi parhau eleni, ond mae eu heffaith wedi cael ei leihau oherwydd bod y boblogaeth yn llai iach erbyn hyn, ac mae fwy o alw am ofal a chefnogaeth.
3. Mae dal angen gwella'r ffordd mae pobl hŷn sydd eisoes yn aros yn derbyn cyfathrebiadau.
4. Mae systemau casglu data dal yn methu monitro ac adrodd yn effeithiol am lefelau oedi wrth i bobl geisio mynychu asesiadau a gofal.
5. Oherwydd y newid yn iechyd y boblogaeth, mae'n bwysicach nag erioed i ganolbwyntio adnoddau tuag at ymyrraeth gynharach a ffyrdd o atal er mwyn gwella iechyd a llesiant.

# *Argymhellion*

## Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod systemau adrodd yn nodi'r wybodaeth yn gyson ledled Cymru.

## Argymhelliad 2

Dylai awdurdodau lleol asesu eu prosesau cyfredol sy'n darparu cyngor a gwybodaeth gychwynnol a mynediad parhaol i gyngor a gwybodaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ateb anghenion pobl hŷn, yn enwedig y sawl sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol.

## Argymhelliad 3

Dylai awdurdodau lleol ddarparu ffocws ychwanegol ar unigolion sy'n aros yn hirach na 30 diwrnod ar hyn o bryd am asesiad o anghenion gofal neu sy'n aros i becyn gofal gael ei weithredu.

## Argymhelliad 4

Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a gwasanaethau trydydd sector gydweithio er mwyn gwella argaeledd ymyrraeth gynnar a chefnogaeth atal ar gyfer pobl hŷn.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid trydydd sector yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio dull cynaliadwy.

## Argymhelliad 6

Mae angen rhoi pwyslais ar ddysgu a rhannu arferion da ymhlith awdurdodau lleol.  Bydd hwn yn lleihau faint o waith sydd angen i awdurdodau lleol wneud, a bydd yn eu helpu i osgoi heriau mae awdurdodau lleol eraill wedi eu hwynebu.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol ac awdurdodau lleol hyrwyddo pwysigrwydd dilyn y Siarter ar gyfer Gofalwyr di-dâl. Mae hwn yn argymhelliad ychwanegol eleni oherwydd y cynnydd mewn faint o ofal di-dâl sy'n cael ei ddarparu. Tra bod rhai awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn rhan o'r broses o wneud newidiadau er mwyn bodloni eu hanghenion, nid yw'r newid yn digwydd yn ddigon cyflym.

# 1. Cyflwyniad

**“Rydw i wedi gofalu am fy ngŵr ers 11 mlynedd heb seibiant. Mae’n waith blinedig yn gorfforol ac yn feddyliol.” (Ymateb Arolwg 2023)**

Mae darpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru yn heriol. Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio, ac mae’r nifer o bobl sy’n byw gyda chyflyrau cymhleth, hirdymor yn cynyddu. Mae’r pwysau ariannol sy’n wynebu awdurdodau lleol yn rhoi systemau o dan bwysau difrifol. Er bod y boblogaeth yn parhau i dyfu a heneiddio, mae darpariaeth gwasanaethau i oedolion yn y gymuned, darpariaeth gofal yn y cartref, a gofal seibiant yn methu un flwyddyn ar ôl y llall.

Mae gofal cymdeithasol o safon dda sy’n cael ei ariannu’n gynaliadwy yn galluogi pobl hŷn i fyw’n annibynnol yn eu tai a’u cymunedau am gyfnodau hirach, gan alluogi gofalwyr i dderbyn cefnogaeth a seibiant. Yn 2019 gwnaeth adroddiad ddarganfod er bod gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion wedi bod yn gyson yn eang dros y pum mlynedd diwethaf mewn termau real, mae gwariant fesul pen wedi lleihau 13%.

Mae’r pwysau ariannol yn cael ei deimlo ledled Cymru. Yn gynyddol, mae teulu a ffrindiau yn darparu mwy o ofal i’w hanwyliaid, ond mae terfyn i beth maent yn medru ei wneud. Mae mwy a mwy o bobl hŷn yn byw ar eu pen eu hun heb fynediad i gefnogaeth anffurfiol, ac mae darpariaeth gofal awdurdodau lleol yn dod yn fwyfwy pwysig.

Erbyn 2035, mae’n ddisgwyliedig:

- Ymhlith pobl dros 65 oed bydd unigolion sy’n methu cyflawni o leiaf un gweithgaredd hunanofal yn cynyddu 46% - sy’n golygu gallai 120,000 o bobl ychwanegol fod angen gofal a chefnogaeth
- Bydd nifer y bobl hŷn sydd â salwch hirdymor yn cynyddu 38%
- Bydd nifer y bobl hŷn sy’n byw gyda dementia yn cynyddu 64%

Bydd hyn mewn gwirionedd yn golygu bydd yna fwy o bobl sydd angen gofal a chefnogaeth gyda chydafiachedd, a chynnydd sylweddol yn nifer y bobl fydd angen cyngor ar sut i ymdopi â chyflyrau hirdymor.

**“Mae fy nhad yn 94 oed, a gwnaeth dreulio 7 mis yn yr ysbyty yn ddiangen oherwydd gwnaethant ddileu ei becyn gofal ar ôl 2 wythnos. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol mor anobeithiol ac yn dda i ddim, felly gwnes i ddod o hyd i ofalwyr newydd fy hun. Yna, gwnaeth y gwasanaethau cymdeithasol geisio’n gorfodi ni i dalu’n fwy na’r uchafswm o £100 yr wythnos a nodwyd gan Gyfraith Cymru. … Roedd fy nhad yn casáu’r ysbyty oherwydd bod ganddo ddementia. Roedd yn teimlo fel carcharor a’r oll roedd e eisiau oedd bod adre gyda ni, sy’n un o’i hawliau dynol. Gwnaeth yr Awdurdod Lleol ymateb bod nifer o bobl ddim yn hoffi bod yn yr ysbyty!!! Mae’n draed moch pan mae Awdurdodau Lleol yn methu gweithredu o fewn y gyfraith. Mae fel petai fod gan bawb hawliau dynol heblaw ein hen bobl, yn enwedig cleifion dementia.” (Ymateb Arolwg 2023.)**

Dyma ein hail adroddiad blynyddol am oedi, wrth i bobl dros 55 oed geisio mynychu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Y llynedd, roedd ein prosiect eiriolaeth dementia, prosiect eiriolaeth HOPE (helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu), a Chyngor Age Cymru oll yn nodi bod oedi difrifol wrth i bobl hŷn geisio cael eu hasesu gan ofal cymdeithasol ar gyfer eu hanghenion, yn ogystal ag oedi wrth ddod o hyd i becynnau gofal wedi i asesiad gael ei gwblhau.

Mae gofal o safon uwch yn dibynnu llawer ar weithlu sefydlog, iach, brwdfrydig, sy'n cael ei gefnogi'n dda. Nid yw'r arian ychwanegol gwnaeth Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn adfer gofal cymdeithasol ac sy'n gweithio tuag at gyrraedd Cyflog Byw Gwirioneddol wedi gwneud llawer o wahaniaeth wrth wynebu argyfwng costau byw sydd wedi gwneud cyflogau gofalwyr yn llai deniadol. Mae recriwtio a hyfforddi staff yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cymryd llawer o amser.

Roedd oedi yn cael effaith niweidiol sylweddol ar unigolion sy'n aros, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u rhwydwaith o gefnogaeth ehangach. Roedd ein hadroddiadau am y gwaith hwn llynedd yn dangos er bod adrannau gofal cymdeithasol ledled Cymru'n gweithio'n galed i wella pa mor gyflym roeddent yn ymateb, mae nifer o bobl yn aros amser hir i gael y gofal sydd ei angen arnynt yn ddifrifol. Yn ôl gwybodaeth gan ein gwasanaethau cyngor a gwybodaeth, mae'r problemau hyn wedi gwaethygu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn hytrach na gwella.

Yn ein harolwg blynyddol diweddaraf gyda phobl hŷn yng Nghymru, Beth sy'n bwysig i chi?, gwelsom fod pobl sydd angen gofal cymdeithasol yn byw gyda nifer o broblemau ar gyfradd uwch na phobl eraill wnaeth ymateb yr arolwg. Mae tua 20% o ymatebwyr yn dweud eu bod nhw angen gofal cymdeithasol. O'r rhain, mae mwy na thraean angen y gofal eu hun, ac mae tua dau draean angen gofal ar gyfer rhywun arall.

O'r 20% o ymatebwyr hynny, pan wnaethom ofyn a oes ganddynt iechyd corfforol a meddyliol o safon dda, roedd gwahaniaeth enfawr yn eu hymatebion gan gymharu gydag ymatebion yn gyffredinol. Roedd y bobl oedd angen gofal cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn profi iechyd meddwl gwael neu wael iawn, ac yn fwy tebygol o ddweud bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaeth tri chwarter o bobl nodi eu bod yn darparu gofal di-dâl ar gyfer o leiaf un person. O'r bobl oedd yn darparu gofal di-dâl, roedd mwy na dau draean yn dweud eu bod yn darparu mwy o ofal di-dâl na llynedd, a llai na 10% yn dweud eu bod yn darparu llai o ofal. Roedd tua thraean yn alarwyr, a oedd yn ffigwr uwch na'r ymatebwyr eraill i gyd.

Roedd y bobl oedd angen gofal cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud bod unigrwydd yn her, bod trafnidiaeth yn her, a bod angen atgyweiriadau ar eu cartrefi.

Roedd pobl a oedd angen gofal cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud eu bod nhw ddim yn optimistaidd am y flwyddyn nesaf.

**"Mae gofalu am fy mam sydd â dementia yn flinedig ac yn anfaddeugar. Does gen i ddim llawer o amser ar gyfer fy hun." Ymatebydd Arolwg 2023**

**"Ers Covid rydw i'n fwy ymwybodol o'm breuder fel gofalwr ar gyfer fy mam sy'n 90 oed ac yn byw gyda dementia, a'm breuder corfforol oherwydd mae wedi gwaethygu fy ngorbryder. ... am ba mor ddibynnol mae hi arna i ar gyfer ei lles - mae fy lefelau egni a fy lles meddyliol wedi dioddef o ganlyniad i hyn." Ymatebydd Arolwg 2023**

O’r bobl sy’n darparu gofal di-dâl, gwnaeth nifer ddweud wrthym fod diffyg cefnogaeth yn eu rôl yn golygu eu bod nhw wedi colli eu hannibyniaeth eu hun, yn cynnwys gorfod rhoi’r gorau i weithio.

**“Bu fy nhad farw yn 96 oed ac roedd e’n byw gyda ni. Roedd hi’n faich gorfod gofalu amdano heb gefnogaeth.” Ymatebydd Arolwg 2023**

**“Dyw gofalu am fy ngwraig i’n llawn amser ddim yn hawdd, a does neb i weld yn becso.” Ymatebydd Arolwg 2023**

Mae’r amrywiaeth o broblemau sy’n wynebu pobl hŷn yn cynyddu, ac mae’r problemau’n gwaethygu pan mae pobl yn methu cael yr help sydd ei angen arnynt er mwyn byw’n annibynnol.

Roedden ni eisiau siarad gyda mwy o awdurdodau lleol na llynedd er mwyn cael darlun manylach am beth sy’n digwydd ledled Cymru, er mwyn gweld beth gall y trydydd sector wneud er mwyn helpu gydag adferiad, ac i weld pun ai fod y newidiadau y soniwyd amdanynt llynedd wedi gwneud gwahaniaeth.

Rydyn ni’n cydnabod yr heriau cynyddol sy’n wynebu awdurdodau lleol wrth rannu adnoddau i ateb y galw cynyddol wedi’r pandemig, y pwysau ychwanegol wnaeth ddatblygu yn ystod y cyfnod hynny, a’r cynnydd diweddar mewn galw wrth boblogaeth sy’n llai iach am wasanaethau gofal cymdeithasol wrth i ni symud i ffwrdd o’r pandemig.

Blwyddyn yn ddiweddarach gwnaethom ddarganfod er bod yna rhai datblygiadau cadarnhaol wedi digwydd, nid yw’r newidiadau cyffredinol wedi arwain at wellhad cyffredinol mewn mynediad at ofal cymdeithasol. Mae angen gwneud mwy er mwyn cefnogi datblygiad gwydnwch cymunedol a fydd yn galluogi i ofal cymdeithasol gael ei gynnig yn ehangach er mwyn lleihau’r lefelau o angen am ofal cymdeithasol dros amser.



# 2. Pwrpas y gwaith ymchwil

**"Roedd hi'n amser hir cyn cael rhywun draw i'r tŷ i siarad am yr help sydd ar gael, a hyd yn oed fwy o amser cyn cael mynediad at yr help." (Ymateb Arolwg 2023)**

Rydyn ni'n gwybod bod methu cael mynediad at y gofal cefnogol cywir yn medru achosi effeithiau hirdymor a difrifol i'r person sy'n aros am ofal, eu gofalwyr, eu teulu, a'u rhwydwaith gefnogaeth ehangach.

Mae anghenion pobl hŷn yn medru newid wrth iddynt aros am asesiad a phecyn gofal. Mae hyn yn enwedig o wir i rai pobl hŷn sy'n byw gyda mwy nag un cyflwr iechyd, neu bobl sydd â gofalwyr â chyflyrau iechyd newidiol neu amgylchiadau eraill newidiol. I bobl sydd yn byw gyda dementia, mae oedi mewn dosbarthiad pecyn gofal yn medru arwain at ddirywiad cyflym, yn enwedig i bobl sy'n byw ar eu pen eu hun. Erbyn bod gwasanaeth ar gael, mae'n bosib fydd amgylchiadau wedi newid, ac mae'r broses yn dechrau drachefn - can achosi oedi ychwanegol i bobl hŷn wrth iddynt geisio cael yr help sydd ei angen arnynt. Mae cyfathrebu gwael ynghylch oedi yn cyfrannu at ddirywiad eu lles meddwl oherwydd bod pobl yn teimlo bod pawb wedi anghofio amdanynt. Os nad yw pobl yn gwybod beth sy'n digwydd a phryd, maent yn medru teimlo bod eu bywydau ar stop.

Y llynedd gwnaeth ein hadroddiad ddarganfod bod oedi difrifol wrth i bobl geisio mynychu gofal cymdeithasol, a gwnaethom gyfres o argymhellion ynglŷn â phethau roedd angen gwella. Ers hynny, mae'r argyfwng costau byw wedi taro'r DU. Mae pobl ledled Cymru'n brwydro gyda chostau bwyd ac ynni, ac mae'r costau cynyddol hyn hefyd wedi effeithio ar wasanaethau cyhoeddus. Roedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl staff yn dibynnu ar gyfrifon y cyfnod cyn yr argyfwng costau byw, felly mae recrwitio ar gyfer rolau gofal yn parhau i fod yn broblem fawr.

## *Astudiaeth Achos*

**Roedd menyw hŷn yn derbyn llawer o ofal di-dâl gan ei merch. Roedd y ferch yn byw gyda chyflyrau iechyd ei hun ac roedd hi'n ei chael hi'n anodd ymdopi. Mae hi wedi bod yn brwydro i gadw trefn ar wybodaeth sydd ganddi yn ogystal â helpu ei mam gyda'i hapwyntiadau iechyd niferus. Pan wnaeth hi gysylltu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn gofyn am help ym mis Ebrill 2023 cafodd wybod bod oedi o ddeuddeg mis cyn byddai ei mam yn medru cael asesiad gofal. Ers iddi gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, nid yw hi wedi derbyn unrhyw gyfathrebiadau wrthyn nhw o gwbl, er ei bod hi wedi egluro pam fod angen help ar ei mam yn ddifrifol.**

Blwyddyn yn ddiweddarach, mae nifer y galwadau wrth bobl hŷn i'n gwasanaeth gwybodaeth a chyngor ynglŷn â gofal cymdeithasol wedi cynyddu. Mae nifer o alwyr yn dweud eu bod yn deall bod yna argyfwng staffio a bydd yn rhaid iddynt aros. Ond dydyn nhw ddim yn deall pam mae cyfathrebu mor wael ynglŷn â beth sy'n digwydd wrth iddynt aros. Maen nhw'n teimlo'n rhwystredig bod dim digon yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r problemau. Dywedodd un galwr:

**'Nid y bobl yw'r broblem, maen nhw'n gwneud eu gorau – rydw i'n cwyno am y system.'**

Roedden ni eisiau darganfod os oedd y newidiadau a drafodwyd llynedd gan awdurdodau lleol wedi cael effaith gadarnhaol. Roedden ni'n awyddus i glywed os oedd ffyrdd newydd o weithio, yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth yn gyda'r trydydd sector yn fwy aml, wedi gwneud gwahaniaeth. Roedden ni eisiau gweld ble roedd gwelliannau wedi eu gwneud, a sut roeddent yn cael eu rhannu er budd rhannau eraill o Gymru.

## *Astudiaeth achos*

**Roedd menyw hŷn wedi cwympo yn gynnar yn y flwyddyn eleni. Roedd hi fod cael llawdriniaeth cyn y pandemig, ond dros amser roedd ei hiechyd wedi dirywio felly nid yw llawdriniaeth yn opsiwn bellach. Mae hi wedi cwympo sawl gwaith yn ystod y misoedd diwethaf. Mae ei mab, ei merch a'i merch yng nghyfraith (oll yn gweithio llawn amser, yn gofalu am eu plant dros y penwythnosau, ac yn byw cryn dipyn o bellter i ffwrdd) wedi bod yn darparu gofal yn ei chartref. Hyd yn oed gyda chymorth ac addasiadau dydy hi ddim yn teimlo'n ddiogel wrth gael cawod ar ei phen ei hun.**

**Roedd hi'n teimlo ei fod yn anurddasol bod ei theulu'n gorfod darparu gofal personol iddi ar ben popeth arall roedden nhw'n hapus i wneud drosti, felly gwnaeth y teulu gysylltu gyda'r awdurdod lleol er mwyn cael help. Dywedon nhw eu bod nhw'n rhif 52 ar restr aros ar gyfer asesiad, felly bydd cryn dipyn o amser cyn ei bod hi'n derbyn y gofal roedd hi ei angen.**

**Mae mam angen 4 galwad y diwrnod er mwyn bod yn ddiogel. Mae'r teulu wedi llwyddo i drefnu peth gofal preifat, ond mae hyn yn rhoi straen enfawr ar eu cyllid yng nghanol argyfwng costau byw.**

Mae pobl hŷn yn trafod yr un materion gyda ni eleni a beth oeddent yn eu trafod gyda ni'r llynedd. Eleni rydyn ni wedi clywed wrth nifer cynyddol o bobl hŷn sy'n teimlo bod eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu, ac maen nhw angen help nawr.

Mae ein trafodaethau gydag eiriolwyr Age Cymru yn nodi eu bod yn gweld lefelau uwch o broblemau yn ymwneud a darpariaeth gofal cymdeithasol. Mae rhai meysydd penodol yn cynyddu'r gwaith sydd angen iddynt wneud er mwyn iddynt fedru cael canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Yn benodol, roeddynt yn dweud:

- Mae cyfeiriadau at wasanaethau eiriolaeth yn cael eu gwneud yn hwyrach yn ystod siwrne person hŷn. Petaent yn medru cael cyfeiriadau'n gynt, mae mwy y gellir ei wneud er mwyn cyrraedd canlyniadau cadarnhaol yn gynt.
- Mae newidiadau mewn staffio timoedd gwaith cymdeithasol yn golygu bod rhif cynyddol o gyfeiriadau yn cyrraedd ble mae'r unigolyn sy'n gwneud cyfeiriad eisoes wedi gadael eu rôl cyn bod y gwasanaethau eiriolaeth yn ateb yr alwad y diwrnod gwaith canlynol. Mae hyn yn cynyddu faint o waith sydd angen i eiriolwyr ac aelodau tîm gofal cymdeithasol ei wneud.
- Cynydd mewn achosion ble mae anghenion pobl hŷn mewn lleoliadau dros dro yn newid tra'u bod nhw yno, sy'n golygu bod angen cynnal mwy o gyfarfodydd lles pennaf.
- Naid mewn cyfeiriadau mewn achosion ble mae perthnasau teuluol wedi mynd ar chwâl, sydd fel arfer yn ymwneud â straen gofalu di-dâl.
- Mae penderfyniadau yn ymwneud â phwy fydd yn talu am ofal yn achosi oedi wrth i bobl hŷn geisio cael y gofal cywir yn ddigon cynnar.
- Gyda nifer cynyddol o gartrefi gofal yn cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwaith mae eiriolwyr yn ei wneud wedi cynyddu, ac mae dewisiadau pobl hŷn ynghylch eu bywydau eu hun wedi lleihau.

Mae'r pwysau cynyddol hwn yn golygu bod gwasanaethau eiriolaeth bellach yn llai abl i ddarparu gofal cyson sy'n hanfodol er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn. Dywedon nhw wrthym ba mor hanfodol yw hi fod cymorth ar gael i bobl yn gynharach ar hyd eu taith i sicrhau bod hawliau pobl hŷn sy'n ymwneud â derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu cynnal.

# 3. Dull

Gan adeiladu ar y gwaith gwnaethom y llynedd, roeddwn ni eisiau deall:

- A yw graddfa'r mater o aros am ofal cymdeithasol wedi newid i bobl hŷn ledled Cymru.
- Ydy cynlluniau awdurdodau lleol am adfer y gwasanaeth gofal cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth i bobl hŷn
- A oes camau wedi eu cymryd gan awdurdodau lleol i helpu'r bobl sy'n aros, a
- Beth allai Age Cymru a'r trydydd sector fod yn ei wneud er mwyn cefnogi awdurdodau lleol gyda'r gwaith adfer.

Gwnaethom gyflwyno'r un cais Rhyddid Gwybodaeth â llynedd er mwyn medru cymharu, gan ofyn:

- I bob unigolyn sy'n 55 oed neu'n hŷn a oedd â chais cychwynnol am asesiad gofal cyntaf, pa mor hir wnaeth pob unigolyn aros o bryd gafodd y cais cychwynnol ei wneud tan fod yr asesiad yn digwydd.
- O'r unigolion gafodd eu hasesu fel bod angen pecyn gofal a chefnogaeth arnynt, pa mor hir oedd y cyfnod o amser o pan gafodd yr asesiad ei gyflawni tan fod y pecyn gofal penodol yn cael ei roi ar waith.

Ar gyfer awdurdodau lleol a oedd wedi darparu data yn ystod y flwyddyn flaenorol gwnaethom ofyn am ddata'r flwyddyn ddiweddaraf rhwng 2022-2023. Ar gyfer Awdurdodau Lleol nad oeddent wedi darparu data o'r blaen, gwnaethom hefyd ofyn am ddata o 2021-2022.

Cysylltom â phob awdurdod lleol i ofyn am gyfarfod gyda'r arweinydd gofal cymdeithasol. O'r 22 awdurdod lleol, llwyddom i gwrdd â deg arweinydd gofal cymdeithasol,  â phump ohonynt yn dod o awdurdodau lleol a oedd wedi darparu data Rhyddid Gwybodaeth.

Oherwydd bod y data Rhyddid Gwybodaeth yn ymwneud â llynedd, gwnaethom gyfarfod ag eiriolwyr o bob rhan o Gymru a'n tîm Gwybodaeth a Chyngor er mwyn clywed pa faterion sy'n dod i'w sylw ar hyn o bryd, ac i weld lle mae pethau'n gweithio'n dda. Siaradom yn fanwl gyda rhai o'r bobl sy'n galw Cyngor Age Cymru er mwyn clywed am eu profiadau. Ar lefel genedlaethol, buom yn siarad â chynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## *Astudiaeth achos*

**Yn ddiweddar, cwympodd dyn hŷn gweddw a cafodd ei dderbyn yn yr ysbyty; mae e bellach yn byw ar ei ben ei hun â chyflyrau iechyd corfforol lluosog. Roedd wedi anafu ei law yn wael ac wedi curo ei ben. Cysylltodd yr ysbyty â'i ferch oherwydd eu bod am ei anfon i'w chartref hi; roeddynt yn dweud bod ei thad yn 'blocio gwelyau'. Mae ei ferch yn byw gyda'i chyflyrau iechyd ei hun, ac mae hi'n dibynnu ar help wrth ei phlant ei hun yn ystod eu 'dyddiau gwael'. Bu'n rhaid iddi wrthod eu cais gan ei bod hi'n gweithio, ac nid oedd modd trefnu i rywun gymryd ei lle.**

**Y diwrnod canlynol fe wnaeth yr ysbyty ryddhau'r dyn i'w gartref, er nad oedd yn gallu paratoi prydau bwyd na mynd â nhw i'r bwrdd.**

**Roedd y teulu eisoes wedi cael gwybod y byddai gofal yn cael ei drefnu ar ei gyfer. Gwnaeth neb ymweld â'r tŷ, felly ffoniodd y ferch yr awdurdod lleol. Dywedodd yr awdurdod lleol y byddai rhywun yn ymweld â'i thad i ystyried pa fath o help sydd ei angen arno. Ond, ni fyddent yn medru darparu unrhyw ofal ar unwaith, a phan fyddai gofal ar gael byddai'n gyfyngedig o ran amser, ac yn cael ei ddarparu am uchafswm o 6 wythnos. Daeth neb i ymweld â'i thad felly cysylltodd y ferch â'r awdurdod lleol eto'r diwrnod canlynol. Dywedodd y person y siaradodd â hi wrthi fod 350 o bobl ar eu rhestr aros ledled y sir felly bydd cryn dipyn o amser yn pasio cyn y bydd hi'n gallu cael unrhyw help i'w thad. Clywodd hi nad oedd unrhyw ofal preifat ar gael chwaith, hyd yn oed os yw'r teulu'n gallu talu amdano eu hunain.**

**Dywedodd y ferch wrthym ei bod hi'n teimlo'n rhwystredig iawn gyda'r system - nid y bobl sy'n ceisio gweithio o fewn y system. Mae hi eisiau i ofalwyr gael eu talu'n well a'u gwerthfawrogi am y rôl hanfodol maent yn ei gyflawni wrth helpu teuluoedd. Dywedodd wrthym, "Hoffwn yn fawr petawn i'n gallu gwneud mwy, ac rwy'n teimlo fy mod i'n siomi pobl."**

Rydyn ni'n clywed yn aml fod nifer o bobl yn teimlo'n euog oherwydd eu bod yn methu gwneud mwy.

# 4. Canfyddiadau

Daw'r data yn yr adran hon o ymatebion Rhyddid Gwybodaeth awdurdodau lleol, a chyfarfodydd gyda deg arweinydd gofal cymdeithasol awdurdodau lleol.

Gwnaethom hefyd edrych ar ddata cyfredol a data o'r cyfnod cyn y pandemig wrth ein gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor i weld a oes tueddiadau mewn meysydd penodol sydd angen ffocws ychwanegol.

## *Problemau gyda phrosesau casglu data yn parhau.*

Mae pryderon o'r adroddiad y llynedd yn parhau bod awdurdodau lleol yn methu tynnu gwybodaeth o'u systemau rheoli achosion yn rhwydd.  Mae'r wybodaeth ynglŷn â'r cyfnod o oedi sy'n wynebu person hŷn cyn cael asesiad, a chyn i becyn gofal gael ei roi ar waith. Sut, felly, y gall awdurdodau lleol gynnal gwiriadau sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer galwadau cynyddol os nad yw eu systemau'n gallu dilyn llwybr gofal gan bob unigolyn sydd angen gofal a chymorth.

Dim ond 12 o'r 22 awdurdod lleol oedd yn gallu darparu data ar ba mor hir yr oedd pob person 55 oed neu'n hŷn yn disgwyl, o'r dyddiad maent yn gofyn am asesiad o'u hanghenion nes bod yr asesiad yn cael ei gwblhau. Roedd hyn yn gynnydd bach ers y llynedd. O'r awdurdodau lleol a oedd yn medru darparu'r wybodaeth hon, roedd wyth hefyd yn gallu darparu data ar ba mor hir yw'r cyfnod rhwng y dyddiad mae'r asesiad gael ei gwblhau, tan fod pecyn gofal ar waith.

Yn debyg i ganfyddiadau'r adroddiad y llynedd, dangosodd trafodaethau gydag awdurdodau lleol y byddai'n cymryd mwy o amser i ddod o hyd i wybodaeth am rai elfennau o ofal nag eraill.  Felly, mae data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn farn fwy cadarnhaol am y gofal a ddarperir oherwydd gall elfennau symlach fel cadeiriau cawod a chodwyr sedd fod yn gymharol syml i'w gweithredu.

Roeddem yn pryderu bod system rheoli achosion un awdurdod lleol ddim ond yn gallu darparu data ystadegol dibynadwy: Dywedasant,

**"Rydym wedi darparu'r data sylfaenol am unigolion sy'n aros am asesiad ond rydym wedi eithrio'r allanolynnau gan ddefnyddio fformiwla ystadegol a rhesymeg y rheol allanolynnau 1.5. Mae'r fformiwla allanolynnau yn dynodi allgleifion yn seiliedig ar ffin uchaf ac isaf."**

Gofynnom a allem gael y wybodaeth i gyd oherwydd ei fod yn haws cymharu â data gan awdurdodau lleol eraill.  Dywedodd yr awdurdod lleol:

**Nid yw ein data yn cael ei gasglu yn y ffordd rydych chi wedi gofyn amdano. [...] Byddai'n cymryd 18 awr er mwyn dilysu'r data'n llawn."**

Mae hyn yn cwestiynu a yw'r hyn y maent yn ei alw'n 'ddata cudd' yn cael ei nodi os nad yw'n cael ei ystyried yn ystadegol ddibynadwy ac mae systemau wedi'u sefydlu i dynnu'r wybodaeth hon allan o bob achos yn y gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Mae'r data hwn yn cynnwys angen gofal a chymorth unigolion. Dylai gwybodaeth pawb fod yn rhan o ddadansoddiad

adfer gofal cymdeithasol, ac os yw'n cymryd mwy o amser na'r amser a ganiateir o fewn terfynau Rhyddid Gwybodaeth, mae'n ymddangos bod hyn yn faich gweinyddol enfawr. Os yw awdurdodau lleol yn dehongli gofynion adrodd yn wahanol i'w gilydd, mae hyn yn effeithio ar gymariaethau perfformiad ac yn rhwystro pobl rhag bod yn hyderus wrth rannu dulliau arfer gorau o ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn.

Y llynedd fe wnaethom adrodd bod rhai awdurdodau lleol wedi dweud wrthym eu bod wrthi'n newid eu systemau rheoli achosion, ac felly ni allent ddarparu'r wybodaeth. Dywedodd awdurdodau lleol yr un peth eleni. Ni chawsom ymateb i'n hymholiad am ba mor hir yr oedd newidiadau i'r systemau yn debygol o gymryd.

Gwnaethom adrodd y llynedd bod awdurdodau lleol wedi dweud wrthym er bod newidiadau ar waith (yn ogystal â'r adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol ar gyfer newid systemau), mae baich ychwanegol wrth fodloni gofynion adrodd statudol gan fod angen casglu data â llaw pan nad yw systemau'n gallu gwneud hyn. Os yw newid yn araf, mae'r baich gweinyddol sylweddol yn parhau ac yn defnyddio adnoddau y gellid eu defnyddio mewn ffordd well er mwyn gwella mynediad at ofal a chymorth.

Dywedodd un awdurdod lleol nad oedd wedi gallu darparu data llynedd fod ganddynt system rheoli achosion newydd a all bellach gysylltu gwybodaeth o'r atgyfeiriad i'r asesiad ac felly byddant yn gallu darparu'r wybodaeth hon y flwyddyn nesaf. Dywedon nhw wrthym y gall llawer o staff iechyd ddefnyddio eu system sy'n helpu i wella pethau. Os yw iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio'r un system ar gyfer cofnodi gwybodaeth am gleientiaid, mae hyn yn lleihau'r baich gweinyddol wrth drosglwyddo gwybodaeth o ardal i ardal, ac felly'n rhyddhau adnoddau y gellir eu defnyddio'n well ar ofal a chymorth rheng flaen.

## *Y mathau o alwadau mae Cyngor Age Cymru'n eu derbyn*

### Mae Cyngor Age Cymru yn profi cynnydd mawr mewn cysylltiadau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a chymorth cymunedol.

Mae gwasanaeth Cyngor Age Cymru[1] yn cynnig cyngor a gwybodaeth i bobl hŷn, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Gofal cymdeithasol yw un o'r prif feysydd y mae pobl hŷn yn cysylltu â ni i'w drafod ac mae data hydredol yn dangos y cynnydd mewn problemau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae galwadau i'n gwasanaeth wedi dyblu mwy na lai ers 2018. Mae nifer y cysylltiadau â'n gwasanaeth yn cynyddu, ac mae cymhlethdod y materion sy'n cael eu nodi hefyd yn cynyddu.  Roedd cysylltiadau gynt yn tueddi i fod ynglŷn ag un maes penodol, ond nawr mae fwyfwy o bobl yn cysylltu gyda ni am faterion lluosog.

**Ymholiadau gofal cymunedol:** Cynyddodd cyfanswm y cysylltiadau ynghylch gofal cymunedol o 2787 yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig i 5254 yn 2022/23 - cynnydd o tua 89%. Bu:

- Cynnydd o 277% mewn cysylltiadau ynglŷn â sut mae gofal a chymorth yn cael ei gynllunio.
- Cynnydd o 35% mewn perthynas â thalu am ofal a chymorth yn y cartref.

1 Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys galwadau at wasanaethau gwybodaeth a chyngor ein partneriaid Age Cymru, ac felly ni ddylid ystyried y niferoedd fel arwydd o nifer y pryderon sydd gan bobl ledled y wlad.

**Ymholiadau cynllunio gofal a chymorth:** Roedd cynnydd o 277% dros y flwyddyn cyn y pandemig o ran cynllunio gofal a chymorth - o 98 yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig i 369. Mae hwn yn faes lle mae nifer cymharol fach o alwadau yn cael eu derbyn, ond mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu'n ddramatig.

- Cynnydd o 1400% ymhlith cysylltiadau o ran mynd i'r afael â'r ddyletswydd lles tuag at y defnyddiwr gwasanaeth.
- Cynnydd o 1500% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â chynnal hylendid personol
- Cynnydd o 1800% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â chymorth i deulu a pherthnasoedd.
- Cynnydd o 140% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas ag adolygiadau o gynlluniau cymorth.

**Gwasanaethau a darparu ymholiadau gofal:** Bu cynnydd o 104% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â gwasanaethau neu ddarpariaeth gofal. Gwnaethom dderbyn 1663 yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig a 3386 yn 2022/23.

- Cynnydd o 775% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â gwasanaethau amhreswyl awdurdodau lleol.
- Cynnydd o 536% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â thalu am offer cymunedol.
- Cynnydd o 416% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â gofal personol.
- Cynnydd o 89% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â chymorth domestig/trefniadau preifat
- Cynnydd o 309% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â gofal seibiant a gofal newydd i ofalwyr.
- Cynnydd o 139% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â phrydau bwyd yn y cartref/prydau ar glud.
- Cynnydd o 63% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol.

**Ymholiadau gofal preswyl:** Roedd cynnydd o 88% ymhlith cysylltiadau mewn perthynas ag opsiynau gofal preswyl o 201 yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig i 377 yn 2022/23. O'r rhain, mae galwadau am faterion trawsffiniol, trefniadau preifat ar gyfer gofal preswyl, hawl yr unigolyn i ddewis gofal preswyl a beth yw dyletswyddau'r awdurdod lleol, oll wedi cynyddu.

Mae'r cynnydd enfawr yn nifer y galwadau a'r cysylltiadau â'n gwasanaeth yn dangos y problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu wrth drafod mynediad at ofal cymdeithasol. Mae'r cynnydd mewn perthynas â thalu am ofal preifat ac offer yn dangos bod pobl hŷn yn wynebu cyfnodau o oedi cyn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Er bod teuluoedd yn cael eu gorfodi i ddarparu gofal di-dâl i anwyliaid, nid dyna'r hyn y maent hwy na'u hanwyliaid ei eisiau. Mae perthnasoedd yn cael eu rhoi dan bwysau, a gall hyn arwain at ganlyniadau hirhoedlog.

Mae'r data isod yn dangos yn glir bod cynnydd yn y galw ar ofal cymdeithasol flwyddyn ers ein hadroddiad diwethaf.

## *Oedi cyn derbyn asesiadau.*

**"Mae fel aros i'r tegell ferwi pan nad yw'n cael ei droi ymlaen." (Ymateb Arolwg 2023.)**


Er bod 12 awdurdod lleol wedi gallu darparu data am yr amser a gymerwyd i asesu eleni, mae ond yn bosib gwneud cymhariaeth dros dair blynedd gyda'r siroedd a oedd yn medru darparu data yn y gorffennol. Bydd y data ychwanegol a gesglir yn cael ei ddefnyddio yn y gwaith mewn blynyddoedd i ddod.

**Tabl 1: Cyfnod o amser ar gyfer asesiad – cymhariaeth dros 3 blynedd.**

| Cyfnod o amser | Cyfansymiau a chanrannau 2019-2020 n-10 | Cyfansymiau a chanrannau 2020-2021 n-10 | Cyfansymiau a chanrannau 2021-2022 n-10 |
|---|---|---|---|
| 0-30 diwrnod | 13073<br>86.28% | 12097<br>91.09% | 14337<br>79.8% |
| 31-60 diwrnod | 954<br>6.30% | 643<br>4.84% | 1696<br>9.44% |
| 91-120 diwrnod | 509<br>3.36% | 264<br>1.99% | 786<br>4.37% |
| 91-120 diwrnod | 275<br>1.82% | 128<br>0.96% | 410<br>2.28% |
| 121-150 diwrnod | 148<br>0.98% | 76<br>0.57% | 244<br>1.36% |
| 151-180 diwrnod | 64<br>0.42% | 33<br>0.25% | 175<br>0.97% |
| 181-210 diwrnod | 33<br>0.22% | 17<br>0.13% | 107<br>0.6% |
| 211-240 diwrnod | 25<br>0.17% | 17<br>0.13% | 75<br>0.42% |
| 241-270 diwrnod | 11<br>0.07% | 3<br>0.02% | 24<br>0.13% |
| 271 - 300 diwrnod | 15<br>0.10% | 2<br>0.02% | 15<br>0.08% |
| 301-330 diwrnod | 15<br>0.10% | 0<br>0% | 23<br>0.13% |
| 331 - 360 diwrnod | 11<br>0.07% | 1<br>0.01% | 16<br>0.09% |
| 361 - 390 diwrnod | 3<br>0.02% | 0<br>0% | 4<br>0.02% |
| 391+ diwrnod | 15<br>0.10% | 0<br>0% | 54<br>0.3% |
| CYFANSWM | 15151 | 13281 | 17966 |

Mae'n haws gweld y cynnydd yn y graff isod.

**Tabl 2 – Cymhariaeth dros dair blynedd – cyfnod o amser ar gyfer asesu pobl dros 55 oed am eu hanghenion gofal mewn 10 awdurdod lleol (yn cynnwys yr un data sydd yn y tabl uchod).**




## Mae anghenion gofal brys pobl hŷn yn golygu bod canran uwch o bobl yn cael asesiad ar gyfer eu hanghenion gofal o fewn 30 diwrnod - ond mae'r cynnydd yn y galw yn golygu bod llawer mwy o unigolion yn aros am gyfnod hirach.

Gofynnodd 19% yn fwy o bobl hŷn am help yn ystod 2021-2022 nag yn ystod prif flwyddyn y pandemig yn 2020-2021 a gofynnodd 35% yn fwy o bobl hŷn am help yn 2021-2022 nag yn ystod flwyddyn cyn y pandemig. Mae hyn yn arwydd bod iechyd pobl wedi gwaethygu yn ystod y pandemig. Mae'n dangos pa mor gyflym y mae'r angen yn cynyddu pan nad oes modd i bobl fynychu gwasanaethau a gweithgareddau ymyrraeth ataliol a chynharach, a chymorth arall.

Mae canran y bobl hŷn sy'n cael eu hasesu o fewn 30 diwrnod o wneud cais wedi gostwng o 92% yn ystod prif flwyddyn y pandemig i 80% ar gyfer 21-22. Mae'r ffigwr hwn yn is ar gyfer cyfrifiadau sy'n defnyddio data gan 12 awdurdod lleol.


Mae mwy o bobl yn aros yn hir iawn am asesiad.

## Y cyfnod hiraf gwnaeth unigolyn aros cyn cael ei asesu gan yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn oedd 1122 diwrnod.

Mewn trafodaethau gydag awdurdodau lleol am y tueddiadau hyn, dywedon nhw fod mwy o bobl nag erioed yn troi atynt nawr yn gofyn am help ac mae eu hanghenion yn fwy difrifol na'r rhai a welwyd cyn y pandemig. Yn aml, mae hyn yn golygu y gall asesiadau anghenion gymryd mwy o amser.

Mae'r tabl uchod yn coladu holl ddata cymharol yr awdurdod lleol, ond wrth wneud hynny mae'n cuddio'r gwahaniaethau unigol rhwng ardaloedd. Mae amseru'r cynnydd yn yr angen am ofal cymdeithasol yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Dywedodd rhai wrthym nad ydyn nhw'n credu eu bod nhw wedi gweld yr uchafbwynt yn y galw eto ac mae eraill yn gobeithio bod y cynnydd mwyaf eisoes wedi digwydd. Dywedodd sawl awdurdod lleol wrthym fod y cynnydd yn y galw y maent yn disgwyl ei weld yn ystod misoedd y gaeaf bellach yn para drwy'r flwyddyn - 'mae'n ddilyw di-baid,' meddai un wrthym. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaethau hyn.

**Tabl 3: Cymhariaeth o nifer yr asesiadau gafodd eu cwblhau dros gyfnod o 3 blynedd mewn 10 Awdurdod Lleol. Cymhariaeth 3 blynedd – nifer o geisiadau am asesiadau**




Mae hyn yn dangos y gwahaniaethau yn lefelau'r angen am ofal rhwng awdurdodau lleol. Mae'r rhesymau dros wahaniaethau yn aneglur. Mae gan bob awdurdod lleol yr un dyletswyddau i asesu anghenion gofal o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) ond mae'r ffordd y maent yn cynnal asesiadau yn amrywio. Dywedodd y mwyafrif o awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw wrthym eu bod yn edrych ar atgyfeiriadau ar y diwrnod y maent yn cyrraedd yr awdurdod lleol.  Os yw'n ymddangos y gellir diwallu anghenion yr unigolyn heb asesiadau gofal cymdeithasol, dywedodd yr awdurdodau lleol eu bod nhw'n ceisio darparu cyngor ar y diwrnod hwnnw. Dywedodd yr awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw eto bod angen iddynt flaenoriaethu'r atgyfeiriadau mwyaf brys, a bod hyn yn golygu bod yn rhaid i eraill aros yn llawer hirach nag y dylent.

Mewn trafodaethau, dywedodd llawer o awdurdodau lleol nad oeddent yn credu eu bod wedi dychwelyd i lefelau o asesiadau wyneb yn wyneb a oedd yn gyffredin cyn y pandemig. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn glir bod asesu person yn eu cartref eu hunain yn werthfawr er mwyn helpu gydag asesiad mwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau unigol y person hwnnw. Fodd bynnag, mae swyddi asesu gwag a chapasiti staff yn golygu nad yw hyn yn bosibl. Yn benodol, mae problemau yn parhau ynghylch recriwtio pobl i gymryd swyddi Therapydd Galwedigaethol a dywedodd rhai wrthym mai hyn oedd yn achosi'r rhan fwyaf o'r oedi cyn bod pobl yn medru cael asesiadau. Yn gyffredinol, mae lefelau cyflog yn uwch ar gyfer y rolau hyn o fewn y GIG nag yn y maes gofal cymdeithasol.

Roedd rhai yn ystyried pun ai fod y pandemig wedi effeithio ar ddiwylliant y gwaith, gan achosi pobl i symud i ffwrdd o weithio 'wyneb yn wyneb' fel rheol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn sôn am anawsterau wrth gael yr wybodaeth dros y ffôn, gan fod rhai pobl yn methu disgrifio'u hamgylchiadau penodol yn hawdd neu gallent leihau effaith eu hanawsterau oherwydd eu bod wedi gorfod addasu dros amser er mwyn ymdopi. Soniodd rhai eu bod yn gorfod pwyso a mesur gwerth cynnal asesiad wyneb yn wyneb yn erbyn defnyddio'r amser teithio er mwyn gallu asesu mwy o bobl am y gofal sydd ei angen arnynt.

Y llynedd, dywedodd awdurdodau lleol wrthym mai un o'r ffyrdd yr oedd staff yn cael eu cefnogi drwy heriau oedd cynyddu'r defnydd o weithio hybrid. Er bod hyn yn cynnig llawer o fanteision, gall gostwng yr amser y mae pobl yn treulio mewn swyddfeydd olygu efallai nad

yw gwybodaeth a chyngor ar gael ar bapur.  Cyn y pandemig byddai gwybodaeth ar bapur yn cael ei gasglu'n rheolaidd er mwyn ei gymryd ar ymweliadau cartref. Gan nad yw llawer o bobl hŷn wedi'u galluogi'n ddigidol, mae gan hyn y potensial i leihau eu mynediad at wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnynt er mwyn helpu eu hunain wrth iddynt aros am gymorth gofal cymdeithasol. Roedd rhai arweinwyr gofal cymdeithasol y gwnaethom siarad â nhw a oedd ymhellach i ffwrdd o waith cymdeithasol rheng flaen yn ystyried pun ai oedd hyn yn cael effaith ar y lefelau o wybodaeth yr oedd pobl yn ei dderbyn.  Nodwyd y byddai'r unigolion hyn yn ymchwilio'r mater hwn.

Wrth siarad ag awdurdodau lleol am fynd i'r afael â'r problemau, soniodd llawer am fwy o ffocws ar wasanaethau a gweithgareddau ymyrryd ac atal cynharach. Dywedon nhw wrthym fod y maes hwn yn hanfodol i'w hadnoddau oherwydd fel arall byddai'r galw am wasanaeth yn cynyddu eto dros amser.

## Troi ceisiadau'n gynlluniau gofal

Mae cyfran y ceisiadau am help sydd yna'n troi mewn i gynlluniau gofal wedi cynyddu.

Cyn y pandemig fe wnaeth 28.5% o geisiadau arwain at ddarparu gofal. Yn ystod prif flwyddyn y pandemig gwelwyd bod y canran yn gostwng, ac awgrymodd trafodaethau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol fod yr anhawster gwnaethant brofi wrth ddod o hyd i ofal yn y gymuned yn ystod y cyfnod clo wedi effeithio ar hyn. Ar gyfer 2021-2022, mae'r gyfradd trosi wedi cynyddu i 36.4%.

Mae'r cynnydd cyffredinol mewn cyfraddau trosi yn awgrymu bod gan lawer mwy o bobl hŷn lefel uwch o angen nag o'r blaen. Fodd bynnag, mae cyfraddau trosi yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol, fel y gwelir yn y tabl isod.

**Tabl 4: Cymharu cyfraddau 6 Awdurdod Lleol unigol, o ddechrau asesiad tan fod gofal ar waith.**

| | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol 1 | 25.6% | 13.7% | 17.8% |
| Awdurdod Lleol 2 | 93.5% | anghyflawn | 45.9% |
| Awdurdod Lleol 3 | 17.1% | 13.9% | 15.7% |
| Awdurdod Lleol 4 | 59.4% | 43.5% | 94.2% |
| Awdurdod Lleol 5 | 4.9% | 5.1% | 15.1% |
| Awdurdod Lleol 6 | 44.1% | 61.3% | 33.0% |

Mae cyfraddau trosi yn cael eu heffeithio gan ystod o ffactorau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- a oes digon o wasanaethau lefel isel cymunedol ar gael i leihau'r galw
- a yw'r un pwynt cyswllt ym mhob ardal yn ddigon aeddfed i wahaniaethu rhwng y bobl sydd angen asesiad a'r rhai sydd angen ateb cymunedol gwahanol, ac
- argaeledd gofal cartref i ddarparu'r newid hwnnw tan fod gofal ar waith.

Lle mae cyfraddau trosi awdurdodau lleol wedi lleihau, mae gallu'r awdurdod lleol i recriwtio pobl i rolau gofal cartref yn ffactor; Os nad oes gofal cymunedol ar gael, mae person hŷn yn parhau i aros am ofal ac nid yw'n rhan o'r data ar gyfer y flwyddyn honno. Mae hyn felly'n awgrymu y gallai cyfraddau trosi fod yn uwch os oedd adnoddau digonol ar gael mewn gofal cartref.

## *Aros am ofal.*

**Fe wnaeth cyfran uwch o bobl hŷn aros llai na 30 diwrnod am rai elfennau o'u gofal y llynedd, ond mae mwy o unigolion yn aros am gyfnod hirach.**

Nododd llawer o ymatebwyr ein harolwg blynyddol 'Beth sy'n Bwysig i Chi?' yr anawsterau y maent yn eu hwynebu wrth geisio cael y gofal sydd ei angen arnyn nhw neu sydd ei angen ar anwylyn.

**"Fe gymerodd hi amser hir, ond roedd yn dda iawn pan roedd ar waith o'r diwedd. Hoffwn i fod wedi gallu helpu yn gynt."**

**"Bu farw fy ngwraig ymhell cyn i'r awdurdod lleol allu dod o hyd i'r gefnogaeth yr oedd ei hangen arni."**

**Cafodd fy mam 89 oed ei rhyddhau o'r ysbyty. Cyn ei rhyddhau o'r ysbyty roedd therapyddion galwedigaethol ysbytai ac ati yn cynnig gweithgareddau, ond ar ôl ei rhyddhau roedd cyfnod o oedi am 2 wythnos cyn i Therapydd Galwedigaethol a ffisiotherapydd ymweld â nhw. Darperir cymorth i ofalwyr gyda golchi ac ati am 6 wythnos. Nawr mae'n rhaid i mi ymdopi. Rydyn ni'n dal i aros am addasiadau fel sedd cawod a rheiliau llaw. Dwi'n teimlo'n rhwystredig gyda mam weithiau ac wedyn rydw i'n teimlo'n euog."**

Mae data Rhyddid Gwybodaeth yn dangos bod cynnydd wedi bod yng nghyfran y bobl hŷn sy'n gofyn am gymorth a oedd wedi cychwyn cynllun gofal o fewn 30 diwrnod wedi i'r asesiad gael ei gwblhau.

Ar gyfer 2021-2022 roedd 83% o'r holl bobl a gafodd becyn gofal y flwyddyn honno yn y categori hwn. Y flwyddyn flaenorol y canran oedd 67% ac yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig y canran oedd ychydig dros 70%.

**Tabl 5: Cyfnod o amser i ddarparu gofal i bobl dros 55 oed ar ôl iddynt gael eu hasesu - cymhariaeth dros 3 blynedd. (n-6)**


| | 19/20 | | 20/21 | | 21/22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0-30 diwrnod | 845 | 70.4% | 647 | 67% | 2498 | 82.5% |
| 31-60 diwrnod | 107 | 8.9% | 160 | 17% | 199 | 6.6% |
| 61-90 diwrnod | 59 | 4.9% | 49 | 5.2% | 121 | 4% |
| 91-120 diwrnod | 37 | 3.1% | 31 | 3.3% | 60 | 2% |
| 121-150 diwrnod | 27 | 2.3% | 20 | 2.1% | 39 | 1.3% |
| 151-180 diwrnod | 31 | 2.6% | 13 | 1.4% | 30 | 1% |
| 181-210 diwrnod | 16 | 1.3% | 6 | 0.6% | 19 | 0.6% |
| 211-240 diwrnod | 14 | 1.2% | 6 | 0.6% | 16 | 0.5% |
| 241-270 diwrnod | 6 | 0.5% | 2 | 0.2% | 15 | 0.5% |
| 271 - 300 diwrnod | 10 | 0.8% | 2 | 0.2% | 9 | 0.3% |
| 301-330 diwrnod | 6 | 0.5% | 2 | 0.2% | 3 | 0.1% |
| 331 - 360 diwrnod | 7 | 0.6% | 3 | 0.3% | 7 | 0.2% |
| 361 - 390 diwrnod | 6 | 0.5% | 0 | 0% | 5 | 0.2% |
| 391+ diwrnod | 29 | 2.4% | 1 | 0.1% | 8 | 0.3% |
| CYFANSWM | 1200 | 100% | 942 | 100% | 3029 | 100% |

Swm y pecynnau gofal a ddyrannwyd yn 2021/22 yw 3.2 gwaith yn fwy na nifer y pecynnau gofal a ddyrannwyd yn 2020/2021 a 2.5 gwaith y flwyddyn cyn y pandemig yn 2019/20.

Wrth drafod casglu data, nododd awdurdodau lleol fod blwyddyn y pandemig ei hun mor anarferol, er bod data wedi'i gasglu, efallai na fydd ffigurau'n cynrychioli'r gwir lefel o angen gan nad oedd llawer o bobl yn gofyn am help bryd hynny.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae Cyngor Age Cymru wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n cysylltu â ni ynglŷn â sut mae gofal yn cael ei gynllunio a'i drefnu, sy'n cynnwys cynnydd yn nifer y galwadau ynghylch dod o hyd i ofal preifat.

**Tabl 6: Cyfnod o amser i ddarparu gofal - cymhariaeth dros 3 blynedd. (n-6)**




Yn ddieithriad, dywedodd arweinwyr gofal cymdeithasol wrthym fod lefel llawer uwch o angen am ofal i nifer o'r bobl sy'n troi atynt am help. Gellir gweld hyn yn glir gyda'r cynnydd mawr yn y gofal a ddarperir a nodwyd gan y graff a'r tabl uchod. Erbyn iddynt drefnu gofal ar gyfer un person mewn argyfwng, mae atgyfeiriad brys arall yn cyrraedd, ac felly does dim capasiti i ddelio â'r rhai sydd eisoes wedi bod yn aros yn amyneddgar am ofal ers peth amser ac a allai fod ei chael hi'n anodd ymdopi. Fel y dywedodd rhywun wrthym,

**"Rwy'n poeni'n fawr am y rhai yn y canol sy'n ei chael hi'n anodd."**

**"Mae'n anodd iawn sefydlu cefnogaeth i ofalwyr.  Yna torrwyd gofal o bob dydd [i] dair gwaith yr wythnos. Mae ein hamgylchiadau bellach wedi newid ac rydyn ni wedi aros 3 mis am asesiad. Yn dal i aros." (Ymateb Arolwg 2023)**

Eglurodd rhai awdurdodau lleol y gwnaethom siarad â nhw fod gan eu Pwynt Mynediad Sengl y gallu i gomisiynu pecynnau gofal dros dro ar gyfer y rhai sydd angen gofal ar frys, a allai esbonio pam mae llawer o bobl hŷn wedi gallu cael gofal yn gyflym.

Roedd llawer o'r arweinwyr gofal cymdeithasol y buom yn siarad â nhw yn amlwg yn bryderus iawn ynghylch erydiad hawliau pobl hŷn oherwydd yr argyfwng mewn gofal. Dywedon nhw wrthym am bobl hŷn sydd wedi cael eu rhoi mewn gofal preswyl pan na fyddent wedi dewis gwneud hynny mewn amgylchiadau eraill, ac eto dyma'r unig opsiwn diogel sydd ar gael heb ofal cartref. Dywedodd un wrthym am gynnydd mewn heriau cyfreithiol ar hawliau dynol oherwydd yr amgylchiadau hyn. Pan wnaeth asiantaethau preifat ddileu pecynnau gofal gyda rhybudd byr, clywsom fod yn rhaid i rai pobl hŷn symud i ofal preswyl gan nad oedd dewis arall diogel ar gael iddynt.

Er bod awdurdodau lleol wedi ymdrechu i symud pobl mewn lleoliad amhriodol mewn gofal preswyl yn ôl i fyw'n annibynnol cyn gynted â phosibl, bu'n rhaid i rai aros yno am fisoedd lawer. Anaml y mae cartrefi gofal preswyl tymor hir yn canolbwyntio digon ar ail-alluogi tuag at fyw'n annibynnol, felly i lawer roedd hyn yn golygu eu bod yn rhy fregus i symud eto, neu'n waeth byth, erbyn i'r gofal fod ar gael yn y gymuned.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym sut roedd cau cartrefi gofal wedi effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal.

Er gwaethaf y pwysau eithafol hwn, roedd arweinwyr gofal cymdeithasol yn glir eu bod eisiau gwneud ymdrechion i ganiatáu i eraill nad ydynt eto wedi gofyn am gymorth i wneud hynny, ac yn poeni am y rhai sy'n meddwl eu bod yn ymdopi, ond a allai elwa o ryw fath o help er mwyn gwella eu bywydau. Fel y dywedodd un, 'Os nad ydym yn gwybod, yn bendant ni allwn helpu.'

## *Cyfathrebiadau*

Dywedodd rhai awdurdodau lleol a ddywedodd wrthym gynt eu bod yn gallu gwneud galwadau i'r rhai oedd yn aros am asesiad neu ofal gan fod capasiti gan staff yn ystod y pandemig i wneud hyn, gan ddefnyddio staff yr oedd eu rôl arferol yn llai uniongyrchol na mynd i'r afael ag anghenion gofal cymdeithasol. Dywedon nhw wrthym, oherwydd bod cymaint o bobl yn troi atynt nawr nad oes ganddyn nhw'r gallu i wneud hyn mwyach.

Dywedodd awdurdodau lleol eraill wrthym eu bod wedi gwneud newidiadau a'u bod mewn cysylltiad rheolaidd â phobl hŷn ynglŷn â ble roedden nhw ar y rhestr aros - dywedodd un bod rhai pobl hŷn bellach wedi gofyn bod neb yn cysylltu â nhw â nhw oni bai bod gofal ar gael.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym eto eu bod yn credu y gallent wneud mwy i'r bobl hynny oedd yn aros pe baent yn gallu cynyddu lefelau staffio.

Dywedodd awdurdod lleol Powys wrthym eu bod wedi comisiynu gwasanaeth trydydd sector i wirio'r galwadau.

Dywedodd pob awdurdod lleol wrthym y bydd pawb sy'n cysylltu â nhw am gymorth gan ofal cymdeithasol o leiaf yn cael llythyr yn dweud wrthynt eu bod ar y rhestr ar gyfer asesiadau. Mae'r llythyr yn dweud y dylai'r person gysylltu â nhw eto os bydd unrhyw beth yn newid tra eu bod yn aros.

Mae profiadau pobl hŷn yr ydym yn clywed amdanynt drwy ein gwasanaethau a'n rhaglen ymgysylltu barhaus ledled Cymru yn awgrymu nad yw lefelau cyfathrebu wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd galwr ar ein llinell wybodaeth a chyngor wrthym, er eu bod wedi siarad â llawer o bobl yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, doedden nhw ddim yn teimlo bod neb wedi gwrando ar eu hamgylchiadau enbyd tan iddyn nhw siarad gyda ni. "Chi yw'r person cyntaf sy'n ymddangos fel petaech chi'n deall yr hyn rydyn ni'n mynd drwyddo," medden nhw wrthym.

# Mynd i'r afael â'r problemau.

Roedd yn amlwg wrth siarad â deg arweinydd gofal cymdeithasol fod y rhan fwyaf yn wynebu'r un heriau i raddau helaeth. Mae'r ffordd y maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn amrywio o sir i sir, ac er bod llawer o atebion posibl, mae rhai ardaloedd yn profi materion mwy sefydledig nag eraill.

Mae'r angen am ofal wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau'r pandemig ar yr un pryd ag y mae recriwtio'n parhau i fod yn anodd. Mae recriwtio ac uwchsgilio recriwtiaid mewn rolau Therapydd Galwedigaethol i leihau ôl-groniadau asesu yn parhau i fod yn broblem i lawer, er bod gan rai llai o broblemau yn y maes hwn. Dywedodd rhai wrthym am swyddi gwag mewn rhai adrannau gofal cymdeithasol a dywedodd rhai wrthym fod ganddynt gyflenwad staff llawn, ond nid yw'n ddigon i ddiwallu lefelau uwch o angen. Dywedodd rhai wrthym am eu dibyniaeth gynyddol ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth a'u pryderon am barhad gofal. Mae gan bob un ohonynt broblemau o ran argaeledd gofal cartref. Dywedodd eraill wrthym sut y bu'n rhaid iddynt ddibynnu ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth, sy'n achosi cost gynyddol ac sy'n gallu lleihau parhad gofal da.

Dywedodd sawl un wrthym am y gwaith ychwanegol sydd ei angen pan fydd cartrefi gofal wedi cau a sut y gall hyn effeithio ar eu gallu i ddarparu cartref o'u dewis i bobl hŷn. Yn benodol, pan oedd cartrefi gofal yn cau yn effeithio ar argaeledd gofal dementia, roedd yn rhaid defnyddio lleoliadau a oedd yn bellach i ffwrdd wrth deulu a ffrindiau.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym am newidiadau mewn ffyrdd o weithio, er enghraifft bod mwy o arbenigedd ar gael wrth ddrws ffrynt gofal cymdeithasol.

Dywedodd llawer o'r awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw am weithio yn yr ardal, sydd, yn eu barn hwy, wedi helpu i gyflymu mynediad at ofal cymdeithasol. Y llynedd, roedd rhai wedi dweud wrthym am gynnydd mewn gweithio fel hyn, ac maen nhw'n credu bod y dull bellach wedi helpu.  Ond gyda phwysau ychwanegol poblogaeth sy'n llai iach ynghyd ag anawsterau recriwtio i rolau asesu a gofal cartref, mae newid yn cymryd mwy o amser nag yr oedden nhw'n ei obeithio.

## Sut mae awdurdodau lleol yn lleihau rhestrau aros

Dangosodd trafodaethau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru amrywiaeth o ffyrdd y maent yn ceisio lleihau oedi mewn asesiadau a darparu gofal i bobl hŷn. Ar gyfer yr awdurdodau lleol yr oeddem wedi siarad â nhw'r llynedd, gwnaethom ofyn am sut mae ffyrdd mwy newydd o weithio wedi helpu.

Roedd awdurdodau lleol a ddywedodd wrthym fod ganddynt rywfaint o gyllid ychwanegol yn fwy tebygol o weld eu rhestrau aros yn lleihau. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion mae'r cyllid ychwanegol dros dro ac felly mae angen atebion hirdymor mwy cynaliadwy.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae newidiadau arfaethedig yn dal i fod ar waith. Er enghraifft, mae newidiadau sy'n gofyn am newidiadau mewn trefniadau contract yn llai tebygol o fod wedi dod i rym erbyn eleni, neu o leiaf nid yw'r newidiadau disgwyliedig i'w gweld eto.

Mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ehangu microfentrau a oedd yn helpu i ddarparu anghenion gofal ar lefel is, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Dywedodd un arweinydd gofal cymdeithasol wrthym fod rhai staff

yn gweithio i asiantaethau gofal preifat oedd wedi bwriadu gadael y proffesiwn. Pan welsant y gallai opsiwn gwell iddyn nhw fod yn gweithio i fenter gymdeithasol, fe wnaethant barhau i weithio yn y sector gofal ac felly roedd y blynyddoedd lawer hynny o brofiad yn cael eu defnyddio.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym y llynedd eu bod yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio taliadau uniongyrchol fel ffordd o ddarparu mwy o gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym eu bod yn defnyddio taliadau uniongyrchol gan nad ydynt yn gallu dod o hyd i'r gwasanaeth cywir ar gyfer anghenion pobl eu hunain. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym fod y cynnydd yn nifer y microfusnesau yn golygu y gall taliadau uniongyrchol fod yn opsiwn gwell i rai pobl. Wrth i'r microfenter ddelio â'r materion cyflogaeth, mae hyn yn golygu y gall mwy o bobl fanteisio ar y cynnig hwn.

Mae sawl un yn edrych ar sut y gallant ddefnyddio gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill y gellir ymddiried ynddynt i asesu anghenion gofal. Dywedodd sawl awdurdod lleol eu bod yn ystyried a oedd modd datblygu systemau lle gallai pobl asesu eu hanghenion eu hunain o fewn fframweithiau cyfreithiol. Pan oedd awdurdodau lleol yn ystyried hyn, roedd yn aml yn digwydd mewn ardaloedd lle mae rhestrau aros yn hir iawn ac nid oedd ymdrechion eraill i glirio ôl-groniadau wedi bod yn llwyddiannus.

Mae awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin wedi buddsoddi mewn swyddogion gwybodaeth a chyngor ychwanegol ac maent bellach yn gweld bod rhestrau aros yn lleihau. Yng Nghonwy mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu rolau gwaith cymdeithasol yn eu timau dyletswydd er mwyn helpu i gael cyngor proffesiynol yn gynharach yn y broses.

Mae awdurdod lleol Gwynedd wedi symud i ffwrdd o gynnal tîm canolog i greu mwy o dimau cymunedol, ac mae'r holl staff yn rhan o restr ddyletswyddau'r tîm dyletswydd, ac maen nhw'n dweud wrthym ni fod hyn yn darparu ymyrraeth gynharach.

Ym Mhowys maen nhw'n treialu mwy o dimau gwaith cymdeithasol yn lleol. Dywedodd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf wrthym eu bod yn adolygu eu swyddogaeth gwybodaeth a chyngor i weld a oes cyfleoedd i gydweithio yn gynharach gydag adrannau eraill, gwasanaethau'r trydydd sector ac asiantaethau eraill i ddarparu ymyrraeth gynharach ar ystod eang o feysydd sy'n cynyddu angen pobl hŷn am gymorth gofal cymdeithasol - yn debyg i wasanaethau 'ymyl gofal' meysydd eraill sy'n darparu cymorth ymarferol a lefel isel. Maen nhw'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i gefnogi gofalwyr di-dâl yn well.

Dywedodd awdurdod lleol Torfaen wrthym fod pum tîm lleol ar draws y fwrdeistref sy'n edrych ar atgyfeiriadau ar y diwrnod y maen nhw'n cyrraedd. Fe wnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu sgrinio'n gynnar er mwyn sicrhau bod anghenion brys yn cael eu hystyried. Mae awdurdod lleol Wrecsam wedi llwyddo i recriwtio llawer yn well yn ystod y chwe mis diwethaf ac maen nhw bellach yn lleihau rhestrau aros. Er bod hwn yn gam cadarnhaol, maent yn parhau i bryderu mai dim ond ateb tymor byr yw hwn nes eu bod yn cael cydraddoldeb â gweithwyr gofal iechyd.

Mae rhai o'r newidiadau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud i wella mynediad at gymdeithasol wedi bod yn cael eu datblygu ers sawl blwyddyn.

## *Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl*

**"Yn dilyn diagnosis o ddementia, mae mam bellach wedi cael cefnogaeth drwy ofalwyr gyda meddyginiaethau a phrydau bwyd bob dydd. Mae hyn wedi lleddfu rhywfaint o'r baich ond mae gen i gyfrifoldeb o hyd dros dasgau arferol i'w chefnogi i aros yn ei chartref ei hun cyhyd â phosib yn ogystal â'r materion ariannol ychwanegol, felly nid yw fy mhryderon wedi lleihau mewn gwirionedd a does neb i'w weld yn becso am yr effaith arna i." Ymateb Arolwg 2023**

Yn ein harolwg blynyddol diweddaraf, dywedodd mwy na thraean o'r ymatebwyr eu bod yn darparu cymorth di-dâl i aelod o'r teulu neu ffrind. O'r rhain, dywedodd mwy na 40% fod faint o ofal maen nhw'n ei ddarparu wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dim ond tua 7% oedd yn dweud bod y swm wedi gostwng. Dywedodd un o'r rhai nad ydynt yn darparu cymaint o ofal,

**"Yr adeg hon y llynedd roedd dementia mam yn gwaethygu a ro'n i'n poeni. Erbyn hyn mae hi'n cael gofal da. Rwy'n dal i boeni amdani, ond nawr dim fi yn unig sy'n gyfrifol amdani. [...] Rwy'n gallu gweld mwy o fy ffrindiau a fy nheulu ac maen nhw i gyd yn gefnogol" Ymatebydd Arolwg 2023**

Y llynedd, dywedodd awdurdodau lleol roeddem eisoes wedi siarad â nhw eu bod yn ymchwilio i'r hyn yr oeddent yn gallu ei wneud a fyddai'n helpu gofalwyr di-dâl. Eleni fe wnaeth mwy o awdurdodau lleol nodi'r ymdrechion a wnaed. Roedd yna ddarlun cymysg o ddatblygiadau ar draws Cymru. Dim ond yn ddiweddar mae rhai wedi dechrau canolbwyntio ar anghenion gofalwyr di-dâl. Dywedodd rhai ardaloedd wrthym eu bod wedi bod yn ceisio canolbwyntio ar hyn ers sawl blwyddyn ond mae'r pandemig a salwch staff wedi achosi cryn dipyn o oedi. Mae meysydd eraill wedi datblygu systemau cynnwys gofalwyr sy'n cynnwys partneriaethau trydydd sector sy'n helpu i lunio cyfeiriad cymorth i ofalwyr di-dâl yn y dyfodol.

### *Astudiaeth achos:*

**Gofynnodd galwr i'n llinell gymorth dros y ffôn am help gan fod y teulu wedi blino mas wedi cyfnod o weithio'n llawn amser, gofalu am eu hwyrion a'u mam. Mae'r teulu i gyd wedi bod yn darparu gofal di-dâl. Mae Mam wedi mynd yn fwyfwy bregus dros y blynyddoedd diwethaf - roedd hi i fod i gael llawdriniaeth cyn y cyfnod clo yn ystod y pandemig cyntaf ond dyw hi ddim yn ddigon ffit ar gyfer llawdriniaethau bellach. Mae hi wedi cael rhai cymhorthion ac addasiadau gartref ond mae hi wedi cwympo nifer o weithiau ac erbyn hyn mae'n teimlo'n anniogel wrth reoli gofal personol a pharatoi prydau bwyd ar ei phen ei hun rhag ofn iddi gwympo eto. Mae hi mewn llawer o boen ac yn aros am apwyntiad am adolygiad rheoli poen.**

**Cysylltodd y teulu â'r awdurdod lleol am gymorth a dywedwyd wrthynt eu bod yn rhif 52 ar y rhestr ar gyfer asesiad anghenion. Dywedodd y galwr wrthym eu bod yn talu am wasanaeth preifat sy'n galw pedair gwaith y dydd. Dywedon nhw wrthym na allant fforddio hyn ond eu bod yn teimlo mai dyma'r unig ffordd i gadw eu mam yn ddiogel yn yr amgylchiadau presennol.**

Soniodd rhai awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw am ba mor hawdd y gall anghenion gofalwyr di-dâl gael eu hanwybyddu gan systemau gofal cymdeithasol sydd o dan bwysau mawr. Dywedodd un wrthym eu bod yn credu y bydd effeithiau tymor hir o ddiffyg cefnogaeth i ofalwyr yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym eu bod wedi darparu staff ychwanegol i ddarparu cymorth i ofalwyr. Dywedodd eraill wrthym eu bod yn datblygu eu partneriaethau gyda'r trydydd sector er mwyn darparu cymorth ymyrraeth gynharach.

Mae awdurdod lleol Ynys Môn yn ystyried sut y gallan nhw weithio gyda'r trydydd sector i gynnal asesiadau a rhyddhau amser gweithwyr cymdeithasol.

Mae gan siroedd Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) drefniadau gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) lle mae staff NEWCIS yn cael eu lleoli yn eu timau adnoddau cymunedol ac yn cynnal asesiadau gofalwyr. Dywedodd awdurdod lleol Wrecsam wrthym fod y bartneriaeth hon yn cryfhau. Maent bellach wedi datblygu'r gwasanaeth 'Pontio'r Bwlch', sy'n darparu seibiant cyfnod byr o rôl y gofalwr.

Dywedodd awdurdod lleol Sir Ddinbych wrthym eu bod yn ceisio darparu cymorth mwy arloesol i ofalwyr di-dâl ac yn gweithio gydag aseswyr gofalwyr i edrych ar ba gymorth y gallant ei ddarparu, yn seiliedig ar anghenion unigol y gofalwr di-dâl. Dywedon nhw wrthym eu bod wedi gweld rhai enghreifftiau da o wirfoddolwyr a gofalwyr yn elwa o'r datblygiadau hyn. Dywedon nhw wrthym fod hwn yn faes y mae'n rhaid iddynt barhau i weithio ynddo i geisio ei gael yn iawn. Dywedon nhw wrthym eu bod wedi gwneud ymdrechion i sicrhau bod llais y gofalwyr di-dâl yn cael ei glywed. Mae ganddynt felin drafod ar gyfer gofalwyr, ac mae'r gofalwyr yn arwain ar ochr gomisiynu'r gwasanaeth. Dywedon nhw wrthym fod hyn yn cael ei arwain gan weithiwr cymdeithasol profiadol ond mae llawer o bobl yn cymryd rhan ac maen nhw'n dod o hyd i ffyrdd mwy creadigol o helpu i gyflawni anghenion y gofalwyr di-dâl eu hunain.

Dywedodd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf wrthym eu bod yn ceisio datblygu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal mwy cadarn ar gyfer gofalwyr di-dâl. Maent yn canolbwyntio ar sut y gallant fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd seibiant gofalwyr ac felly comisiynu rhywbeth sy'n fwy gwerth chweil i fwy o bobl na'r rhai sydd angen seibiant yn unig neu sydd â thaliad uniongyrchol. Mae adborth gan ofalwyr di-dâl yn eu hardal yn dweud bod angen lle canolog arnynt i fynd am y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar yr adeg y mae ei hangen arnynt. Maent yn ymchwilio i sut y gallant gyflawni'r amcanion hyn.

Dywedodd awdurdod lleol Torfaen wrthym fod ganddynt ganolfan gofalwyr sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i ofalwyr 5 diwrnod yr wythnos. Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi swyddog gofalwyr sy'n gweinyddu'r grantiau gofalwyr.

Mae awdurdod lleol Bro Morgannwg wedi cynyddu adnoddau ar gyfer anghenion gofalwyr. Yn flaenorol, roedd anghenion gofalwyr o dan un rheolwr a oedd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau eraill ac felly nid oedd yn gallu rhoi digon o ffocws i ofalwyr. Nawr, unig gyfrifoldeb un rheolwr yw anghenion gofalwyr. Bellach mae swyddog cymorth penodol ar gyfer gofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol sy'n gallu cynnal asesiadau gofalwyr yn ogystal â grantiau mynediad i ofalwyr. Maent yn contractio gyda Phorth Gofalwyr, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor a hefyd yn cynnal asesiadau gofalwyr. Os yw'r Porth Gofalwyr yn credu bod gofalwr yn ei chael hi'n anodd, erbyn hyn mae ganddynt systemau i gyfeirio'n syth yn ôl i'r tîm gwaith cymdeithasol i gael cymorth ychwanegol. Dywedon nhw wrthym eu bod yn credu bod y newidiadau hyn bellach yn gwneud gwahaniaeth ond eu bod yn parhau i bryderu am y gofalwyr di-dâl nad ydynt yn gwybod amdanynt. Eu cam nesaf fydd datblygu gwaith ymgyrchu ar hawliau gofalwyr i geisio cyrraedd mwy o ofalwyr sydd angen cymorth.

Mae gofalwyr di-dâl angen y newid i ddigwydd yn gyflymach. Bydd y galw ar ofalwyr yn parhau i gynyddu tra nad ydynt yn gallu cael cymorth gan ofal cymdeithasol tra bod problemau staffio yn parhau.

## *Gofal cartref*

Dywedodd ymatebwyr ein harolwg blynyddol wrthym am faint mae'r argyfwng recriwtio i rolau gofal cartref yn effeithio arnynt. Clywsom gan bobl sydd angen mwy o ofal eu hun, neu ar gyfer eu hanwyliaid, ac mae'r diffyg yn nifer y gweithwyr gofal yn golygu na ellir dod o hyd i gymorth. Mae Cyngor Age Cymru wedi derbyn mwy o alwadau dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â'r angen i ddod o hyd i ofal preifat oherwydd y diffyg gofal sydd ar gael drwy asesiad neu ailasesiad gwasanaethau cymdeithasol, felly mae teuluoedd yn cael eu gorfodi i geisio dod o hyd i rywbeth arall. Mae galwyr wedi dweud wrthym na allan nhw ddod o hyd i ofal preifat chwaith.

Clywsom sut mae anghysondeb ar adegau o ymweliadau a newidiadau mewn staff gofal yn effeithio ar bobl hŷn sy'n byw gyda dementia.

**"Mae'n anodd cael gafael ar wybodaeth. Gofal cyfyngedig iawn. Dim cysondeb. Trefn amser gwael. Yn aml, does neb yn dod. Gofalwyr dibrofiad. Mae'n anodd iawn i gleifion Alzheimer sydd angen cysondeb." Ymatebydd Arolwg 2023**

Y diffyg gofal cymunedol yw'r brif broblem o hyd i adrannau gofal cymdeithasol ledled Cymru ac mae ardaloedd gwledig yn ei chael hi'n fwy anodd. Mae gan bob sir broblemau i wahanol raddau. Roedd yn amlwg o'r trafodaethau bod ymdrechion wedi cael eu gwneud ledled Cymru i wneud newidiadau, ond mae argyfwng costau byw ac anghenion cynyddol pobl hŷn sydd wedi dod i'r amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf wedi lleihau effeithiau'r newidiadau a wnaed.

Yn benodol, mae llawer o siroedd yn cael trafferth recriwtio mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth waeth a lle mae cyfleoedd cyflogaeth amgen â thâl tebyg gyda llai o gyfrifoldebau. Soniodd rhai siroedd gwledig am y manteision posib o gyfuno gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn un gwasanaeth.

Dywedodd awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin eu bod wedi cynyddu eu cyfradd fesul awr a bod ganddynt gyfraddau gwahanol ar gyfer ardaloedd sy'n anoddach o ran darparu gofal.

Dywedodd awdurdod lleol Conwy wrthym fod pawb sydd angen gofal cartref yn mynd drwy eu gwasanaeth ailalluogi yn gyntaf fel y gellir cwblhau asesiad mwy cywir o anghenion tymor hir unigolyn. Mae hyn yn rhyddhau adnoddau ar gyfer y rhai sydd angen gofal cartref tymor hir.

Dywedodd awdurdod lleol Sir Ddinbych fod ganddynt drefniant contract yn wreiddiol gyda chatalydd cymunedol a oedd yn eu cefnogi i adnabod entrepreneuriaid a allai fod eisiau sefydlu menter. Maent bellach wedi dod â rhai microfentrau i'w tîm gofal ymylol, a ddatblygodd yn ystod y pandemig. Dywedon nhw wrthym y gall microfentrau fod yn ffordd dda iawn o ddefnyddio taliadau uniongyrchol gyda phobl hŷn wrth i'r materion sy'n ymwneud â gorfod gweithredu fel cyflogwr gael eu lleihau. Mae ganddynt gynlluniau i ehangu'r maes hwn.

Yn awdurdod lleol Gwynedd mae ganddynt fwy o ffocws ar ardaloedd ailalluogi gofal cartref i ryddhau adnoddau ar gyfer y rhai sydd angen gofal hirdymor.

Mae Ynys Môn wedi elwa o golli gwaith eraill ar yr ynys er mwyn recriwtio mwy o bobl i rolau gofal. Wedi i'r ynys golli un o'u prif gyflogwyr, aethant â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr adnoddau dynol allan i ddigwyddiadau cymorth cymunedol i siarad am yrfaoedd o fewn gofal cymdeithasol. O ganlyniad i hyn, roedden nhw'n gallu recriwtio nifer o ofalwyr. Maent wedi dod â rhywfaint o ofal cartref yn fewnol ac mae ganddynt broses dendro newydd.

Dywedodd awdurdod lleol Powys wrthym am yr anawsterau eithafol maen nhw'n eu cael wrth recriwtio. Maent yn comisiynu microfentrau i ateb rhywfaint o'r galw am ofal lefel is.

Yn Nhorfaen maen nhw wedi dechrau treialu gweithio yn seiliedig ar blwyf. Dywedon nhw wrthym fod ganddynt wasanaethau ailalluogi da sy'n helpu pobl i gyrraedd man lle mae angen llai o ofal arnynt ac felly mae hyn yn rhyddhau capasiti.

Dywedodd Bro Morgannwg wrthym fod y newidiadau maen nhw wedi'u gwneud yn golygu eu bod bellach yn gweld bod eu rhestrau aros am ofal yn lleihau. Mae ganddynt wasanaeth ailalluogi tymor byr mewnol, gyda'r gofal cartref tymor hir yn cael ei ddarparu gan asiantaethau preifat. Roeddent yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal tymor hir i'r rhai sy'n cyrraedd diwedd eu gwasanaeth ailalluogi tymor byr, a oedd yn cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n aros am ofal, ond dim ond ateb tymor byr yw'r adnoddau sydd wedi gwneud y gwahaniaethau hyn i gynyddu maint y gofal.

Maent wedi symud i ffwrdd o gomisiynu 'amser a thasg' ac maent bellach yn darparu gwasanaeth 'Eich Dewis'. Yn hytrach na nodi tasgau penodol, dyrennir nifer o oriau i'r person hŷn ac maent yn trafod gyda'u darparwr gofal sut y gallant ddefnyddio'r amser hwnnw orau ar gyfer yr hyn sy'n bwysig iddynt. Maent hefyd wedi cael buddsoddiad ychwanegol yn y tîm rhyddhau o ysbytai sy'n helpu gyda lefel y galw.

Roedd awdurdod lleol Wrecsam wedi treialu rhai microfentrau i ddechrau, ac ar ôl gweld pa mor dda y mae'r rhain wedi helpu pobl, maent bellach yn ehangu'r gwasanaeth. Maent wedi dod â rhywfaint o ofal cartref yn fewnol er mwyn cynnal staff gyda thelerau ac amodau cyflogaeth well ac maent bellach yn gweld bod rhestrau aros yn lleihau.

Mae'n amlwg bod yr holl awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw yn ceisio gwneud newidiadau i leihau oedi. Deallwyd ers amser maith y byddai'r boblogaeth sy'n heneiddio yn rhoi pwysau ar system a oedd yn ei chael hi'n anodd ateb y galw cyn y pandemig ac mae llawer o'r newidiadau uchod wedi'u cynllunio ers dros sawl blwyddyn. Mae contractio trefniadau a ffyrdd o weithio bydd yn cymryd peth amser i wreiddio a chynhyrchu gwelliannau yn gadael pobl hŷn heb y cymorth sydd ei angen arnynt. Wrth i anghenion y boblogaeth newid, mae'n hanfodol bod systemau gofal yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion sy'n newid.



## *Newid canolfannau dydd*

Gall canolfannau dydd helpu i roi'r amser sydd ei angen ar lawer o ofalwyr di-dâl i wneud pethau eraill i ffwrdd o'u rôl ofalu a darparu'r cymorth a'r gweithgareddau sydd eu hangen ar y person hŷn yn eu bywydau bob dydd. Cyn y pandemig, roedd canolfannau dydd eisoes yn cau ac roedd hyn yn bryder i lawer o bobl hŷn.

Y llynedd clywsom gan rai awdurdodau lleol nad oedden nhw wedi ailagor darpariaeth canolfannau dydd ers y pandemig. I rai, roedd hyn oherwydd diffyg staff gofal. Dywedodd awdurdodau lleol eraill eu bod yn achub ar y cyfle i gau gwasanaethau dydd i archwilio pa wasanaeth y mae'r rhai sy'n defnyddio canolfannau dydd gwir ei eisiau a'i angen.

Eleni mae mwy o arweinwyr gofal cymdeithasol wedi dweud wrthym fod canolfannau dydd wedi cau ond eu bod yn darparu cymorth i ddiwallu anghenion y rhai oedd yn defnyddio canolfannau dydd mewn ffyrdd gwahanol. Dywedodd sawl un wrthym fod rhywfaint o ddarpariaeth yn cael ei chynnal ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf, a dywedodd un wrthym fod y galw ar gyfer canolfannau dydd traddodiadol wedi lleihau, a bellach ond un person yn mynychu. Thema gyffredin y trafodaethau oedd bod gan y rhai a nodwyd bod angen gwasanaethau dydd arnynt anghenion cynyddol erbyn hyn, ac felly mae'r ddarpariaeth yn newid i ddiwallu anghenion sy'n newid.

Mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried taliadau uniongyrchol grŵp fel modd o ddarparu cyfleoedd cymdeithasol i bobl hŷn yn hytrach na darpariaeth canolfannau dydd traddodiadol.

Yn Sir Gaerfyrddin edrychodd yr awdurdod lleol ar ba ddarpariaeth oedd ganddynt tra bod pethau ar gau. Maent bellach yn darparu llai o ofal yn seiliedig ar adeiladau ac yn datblygu cyfres o opsiynau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd garddio, grwpiau cerdded, a thaliadau uniongyrchol grŵp (er bod y rhain yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer grwpiau cleientiaid eraill).

Yn Sir Ddinbych byddant yn agor eu canolfan ddydd newydd cyn bo hir sydd wedi'i hailfodelu i ganolbwyntio ar ailalluogi.

Dywedodd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf wrthym nad ydyn nhw wedi ailagor eu darpariaeth ers y pandemig. Erbyn hyn maent yn darparu gwasanaethau llai yn ystod y dydd lle'r oedd yr angen uchaf bob amser. Yn ystod y pandemig roedd y ddarpariaeth allgymorth yr oeddent yn gallu ei darparu yn lle gwasanaethau dydd yn gadarnhaol. Ar hyn o bryd maent yn edrych ar opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Yn Nhorfaen nododd yr awdurdod lleol fod y gwasanaethau dydd wedi bod yn rhy seiliedig ar adeiladau a thraddodiad, felly nid ydynt wedi mynd yn ôl i'r gwasanaeth a oedd ar gael cyn y pandemig. Dywedon nhw wrthym eu bod yn edrych ar yr hyn sy'n bodloni canlyniadau pobl yn well. Mae gan y system newydd rai gwasanaethau dydd o hyd ond mae'n cynnwys gwasanaeth dydd sefydlog sy'n asesu'r hyn y mae pobl ei eisiau o'u gofal dros gyfnod o sawl wythnos. Ar ôl yr asesiad mae ganddyn nhw gynnig sy'n fwy seiliedig ar y gymuned.

Mae awdurdod lleol Bro Morgannwg wedi agor yr un nifer o ddarpariaeth a oedd ar gael cyn y pandemig, ond er bod hyn gynt yn fwy o glwb cymdeithasol, mae gan y rhai sy'n mynychu anghenion mwy difrifol felly ni allant gael cymaint o bobl yno ag o'r blaen heb staff ychwanegol. Dywedon nhw wrthym ei fod bellach yn fwy o gymorth seibiant mewn ymateb i'r galw newidiol am y gwasanaeth.

Mae'n bwysig, fel mewn meysydd eraill o ddarpariaeth gofal cymdeithasol, fod pobl hŷn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt tra bod newidiadau yn cael eu gwneud i fodelau gwasanaeth.

## *Cynyddu gwydnwch cymunedol*

Nododd llawer o'r awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw'r ymdrechion y maent yn eu gwneud i gynyddu gwydnwch cymunedol er mwyn lleihau'r galw yn y tymor hir. Roedd y mwyafrif yn glir bod angen partneriaethau cryf yn y gymuned er mwyn gwneud hyn ac mae'r trydydd sector yn rhan annatod o hyn. Soniodd sawl un am ba mor anodd yw adeiladu cefnogaeth gwydnwch cymunedol heb gyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector. Dywedodd dau awdurdod lleol wrthym sut maen nhw'n edrych ar ffyrdd o newid eu trefniadau contractio i wneud pethau'n haws.

Dywedodd rhai wrthym am fwy o waith partneriaeth gydag asiantaethau'r trydydd sector a all ddarparu cefnogaeth i'r rhai sydd angen gofal, ond sydd hefyd yn darparu cyfleoedd ehangach i gynyddu gwydnwch. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu lleoliadau cymunedol a chysylltu â grwpiau cymunedol.

Nododd rhai awdurdodau lleol eu bod, fel rhan o'r broses o edrych ar eu gwasanaethau mewnol eu hunain, hefyd yn edrych ar ba feysydd fyddai'n cael eu darparu orau drwy asiantaethau'r trydydd sector. Dywedodd rhai wrthym y byddai rhan o'r gwaith hwn yn golygu helpu i ddarparu pont rhwng gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Dywedon nhw y byddai'r newidiadau hyn yn golygu newid eu harferion comisiynu er mwyn i hyn fod yn newid effeithiol.

Soniodd sawl un am yr angen am gymorth ehangach y gellid ei ddarparu gan wasanaethau'r trydydd sector ar gyfer rhyddhau pobl o'r ysbyty, a fyddai'n helpu i leihau'r siawns o orfod mynd yn ôl fewn i'r ysbyty.

Yn ystod sgyrsiau am ofal cartref, dywedodd llawer wrthym ba mor hanfodol yw'r cysylltiad personol hwnnw i'r bobl hŷn hynny y mae unigrwydd ac unigedd yn effeithio arnynt. Esboniodd rhai bod eu cronfa o wirfoddolwyr wedi gostwng ers y pandemig. Mae rhai gwirfoddolwyr hŷn wedi colli rhywfaint o'u hiechyd ac yn llai abl i fedru gwirfoddoli. Byddent yn croesawu cynnydd mewn gwirfoddoli o ran galwadau cyfeillgarwch a allai fod yn llwybr at gymorth cymunedol anffurfiol.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym am fwriad i ehangu tai gofal ychwanegol sydd wedi'u teilwra i ddarparu'r amgylchedd cywir i alluogi pobl i fyw'n annibynnol heb ofal a chymorth am gyfnod hirach.

# 6. Casgliadau

**1. Mae darlun yn dod i'r amlwg o boblogaeth yng Nghymru sydd yn llai iach wedi prif gyfnod y pandemig. Mae modd gweld hyn yn y cynnydd mawr yn nifer y bobl hŷn sy'n troi at ofal cymdeithasol am gymorth, a brys eu hanghenion.**

Bydd yr effeithiau andwyol y mae hyn yn eu cael ar y bobl hŷn hyn, eu gofalwyr di-dâl, eu teuluoedd ehangach a'u cymunedau yn cynyddu oni bai fod mwy yn cael ei wneud er mwyn sicrhau newid mewn systemau gofal ar gyfradd gyflymach nag sy'n digwydd nawr. Roedd yr awdurdodau lleol y buom yn siarad â hwy yn frwdfrydig am yr angen am ymyrraeth ac atal cynharach a fydd yn lleihau'r galw am ofal yn y tymor hir. Ond maent yn cael trafferth cynllunio ar gyfer hyn wrth ddiwallu anghenion poblogaeth sydd yn llai iach, ac sydd ag anghenion brys yn y fan a'r lle.

Mae awdurdodau lleol yn ceisio ceisio gwneud gwahanol bethau i helpu, ond heb adnoddau a ffocws ychwanegol, bydd effeithiau'r newid yn rhy hwyr i lawer o bobl sydd angen help nawr.

**2. Mae'r ymdrechion ar gyfer adfer gofal cymdeithasol wedi parhau eleni, ond mae eu heffaith wedi lleihau o ganlyniad i boblogaeth sydd yn llai iach, ac sydd bellach ag angen ychwanegol am ofal a chymorth.**

Mae'r materion a welsom yn ein hadroddiad y llynedd yn parhau. Mae'n amlwg o'n trafodaethau gyda deg awdurdod lleol eu bod yn newid eu dulliau o weithio ar gyfer y rhai sydd angen gofal nawr, tra hefyd yn ceisio datblygu gwasanaethau ehangach er mwyn lleihau lefel yr angen yn y tymor hir. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n cael eu hasesu o fewn 30 diwrnod yn awgrymu bod yr ymdrechion y mae awdurdodau lleol wedi'u gwneud wedi cael effaith, er bod mwy o bobl yn aros yn hirach.

Mae adrannau gofal cymdeithasol yn cael eu gorfodi i wneud dewisiadau anodd ynglŷn â phwy sydd â'r angen mwyaf brys am ofal ar eu rhestr ac mae hyn yn fwyfwy ar draul niferoedd cynyddol sy'n ceisio ymdopi cystal ag y gallant.

Er ei fod yn bwysig bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn derbyn gofal, mae mwy y gellid ei wneud ar gyfer y rhai sy'n aros ac mae cyfathrebu gwell sy'n cynnwys gwybodaeth a chyngor yn hanfodol ar gyfer hyn.

**3. Mae dal angen gwella'r ffordd mae awdurdodau lleol yn cyfathrebu â phobl hŷn sy'n aros, yn ogystal â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn.**

Dangosodd trafodaethau gydag awdurdodau lleol i raddau helaeth fod adrannau dan ormod o bwysau i gynyddu nifer y galwadau i'r rhai sy'n aros. Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym am newidiadau posibl i'w hadrannau cyswllt cyntaf a'u systemau a fydd yn helpu i wella ansawdd y cyswllt cyntaf. Ond yn debyg i'r llynedd, nid oedd y bobl hŷn y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod eu cyswllt cychwynnol neu barhaus â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi darparu'r adnoddau roedd eu hangen arnynt er mwyn iddynt fedru cefnogi eu hunain wrth iddynt aros.

**"Rwyf wedi ceisio nifer o weithiau ond heb gael unrhyw gefnogaeth." Ymatebydd Arolwg 2023**

**"Rydw i dal yn aros am ymateb i atgyfeiriad." Ymateb Arolwg 2023**

Pan fydd y cysylltiad cyntaf yn mynd yn dda, mae pethau'n llawer gwell.

**"Roeddwn yn disgwyl am amser hir i'r pecyn gofal gael ei sefydlu. Ond roedd yr holl staff a oedd yn rhan o'r achos yn deall ac yn llawn gwybodaeth." Ymatebydd Arolwg 2023**

Yn aml, mae pobl sy'n troi at ofal cymdeithasol mewn argyfwng, ac felly gall fod yn anodd ystyried yr holl wybodaeth a drosglwyddir dros y ffôn y tro cyntaf. Felly, mae'n bwysig bod pobl hŷn sy'n troi at ofal cymdeithasol yn cael cyfle fel rheol i gael y wybodaeth honno eto. Gall gwybodaeth o'r fath gynnwys unrhyw beth o fanylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymunedol, hawliau cyfreithiol gofalwyr, gwybodaeth ar sut i hawlio hawliau ariannol, gwybodaeth am les a gweithgareddau cymdeithasol neu ystod o bethau eraill y mae unigolion eu hangen er mwyn helpu i ofalu am eu hunain.

Gallai hyn fod drwy alwad ffôn ychwanegol, neu mewn sefyllfa lle mae cyswllt cychwynnol wedi sbarduno'r broses asesu gofal, gallai hyn fod trwy ymweliad â'r cartref. Fodd bynnag, wrth i dimau newid o weithio yn y swyddfa i ddefnyddio dulliau hybrid o weithio mewn timau gofal cymdeithasol, rydym yn pryderu efallai na fydd pobl hŷn yn cael yr un faint o wybodaeth ac y byddent gynt mewn ymweliadau â'r cartref. Roedd rhai arweinwyr gofal cymdeithasol yn ansicr a allai timau gwaith cymdeithasol sy'n gweithio o bell ddarparu'r un wybodaeth a'r cyngor y byddai pobl fel arfer wedi'u derbyn yn ystod asesiadau ac ymweliadau â'r cartref. Roeddynt yn mynd i wirio eu gweithdrefnau mewnol i sicrhau nad oedd hyn yn ganlyniad anfwriadol i newidiadau.

### 4. Mae angen i ymdrechion i wella cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl ddigwydd yn gyflymach.

Tra bod trafodaethau gydag arweinwyr Awdurdodau Lleol wedi dangos eu bod yn cymryd camau i helpu gofalwyr di-dâl, hyd yn oed mewn adrannau ble mae newidiadau ar waith, nid yw'r adborth mae Age Cymru yn ei dderbyn gan ofalwyr di-dâl yn dangos gwelliannau eto.  Rydyn ni eisoes yn gweld cynnydd mewn perthnasau sy'n mynd ar chwâl oherwydd bod gofalwyr yn diffygio felly mae'n angenrheidiol bod ffocws ychwanegol yn cael ei roi ar ofalwyr di-dâl ar frys.

### 5. Nid yw systemau casglu data yn dal i allu monitro ac adrodd yn effeithiol ar lefelau oedi o ran mynediad at asesiad a gofal.

Mae'r materion y gwnaethom adrodd amdanynt y llynedd yn parhau eleni. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym fod eu system newydd yn caniatáu iddynt greu adroddiadau yn haws ac y gall cydweithwyr iechyd ei defnyddio. Gall datblygiadau o'r fath leihau ochr weinyddol y gwaith gofal gan fod dim angen mewnbynnu gwybodaeth dro ar ôl tro i mewn i systemau gwahanol.

Mae'r diffyg gallu i fonitro'r data hwn yn hawdd yn ei gwneud hi'n anodd deall sut y gall awdurdodau lleol neilltuo digon o adnoddau a sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn gofal a chymorth amserol ac effeithiol.

Fel o'r blaen, mae'r diffyg unffurfiaeth hwn ledled Cymru yn ei gwneud yn anodd iawn gweld darlun cyffredinol clir i ddeall maint unrhyw broblemau posibl a pha gymorth y gallai fod ei angen.

### 6. Oherwydd y newid yn iechyd y boblogaeth, mae'n bwysicach nag erioed canolbwyntio adnoddau mewn meysydd ymyrraeth ac atal cynharach er mwyn gwella iechyd a lles.

Dywedodd llawer o'r awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw wrthym am fwy o ymdrechion i ddarparu ymyrraeth a chymorth cynharach fel ffordd o leihau'r angen yn y tymor hir. Soniodd sawl un am Gronfeydd Integreiddio Rhanbarthol fel modd o gefnogi'r maes gwaith hwn a pha mor hanfodol yw eu partneriaethau gyda'r trydydd sector er mwyn cyflawni hyn.

# 7. Argymhellion

Y llynedd, gwnaethom awgrymu argymhellion sy'n canolbwyntio ar newidiadau tymor byr a chanolig. Mae angen gweithredu'r argymhellion er mwyn gwella profiad pobl hŷn o fynychu gofal i gyd-fynd gydag ymdrechion yr oedd Llywodraeth Cymru, byrddau rhanbarthol ac awdurdodau lleol eisoes yn eu gwneud er mwyn adfer gofal cymdeithasol.

Ar y cyfan, mae ein hargymhellion wedi aros yr un peth i raddau helaeth.

## Argymhelliad 1

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod mecanweithiau adrodd yn casglu gwybodaeth yn gyson ledled Cymru.**

Bwriad argymhelliad 1 ein hadroddiad yn 2022 oedd gwella ansawdd y wybodaeth a gasglwyd ac i ddarparu gwybodaeth fwy diweddar sy'n gywir ac yn gymaradwy. Eleni, er bod rhai datblygiadau bach wedi bod mewn systemau casglu data, mae gwahanol systemau a phrosesau yn golygu bod y broses o gymharu data yn dal i fod yn anodd iawn.

Mae trafodaethau manylach gydag arweinwyr gofal cymdeithasol yn awgrymu, er bod un o'r prif systemau a ddefnyddir yng Nghymru yn gweithio'n dda mewn rhai Awdurdodau Lleol, nid dyna yw'r sefyllfa mewn Awdurdodau Lleol eraill sy'n defnyddio'r un system. Roedd hi hefyd yn ymddangos fod rhai systemau ond yn casglu data ystadegol dibynadwy mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio at ddibenion cynllunio.

Felly, er bod yr argymhelliad wedi ei ail-eirio, mae mwy neu lai'r un fath a'r argymhelliad gwnaethom y llynedd.

## Argymhelliad 2

**Dylai awdurdodau lleol asesu a yw eu prosesau presennol ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth gychwynnol a mynediad parhaus at gyngor a gwybodaeth yn diwallu anghenion pobl hŷn, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.**

Dylai hyn gynnwys:

- P'un a yw'r wybodaeth a ddarperir trwy'r gwasanaeth cyngor a gwybodaeth yn cwmpasu'r ystod o anghenion, a'r hyn y bydd ei angen yn ychwanegol fel rhan o ddatblygiadau fframwaith rhagnodi cymdeithasol.
- P'un a roddwyd ystyriaeth ddigonol i gamau dilynol ar gyfer pobl fregus a allai fod yn ei chael hi'n anodd gofyn am help eilwaith.
- P'un a yw'r wybodaeth a ddarperir yn hygyrch i bawb, a sut y gall pobl na allant ddefnyddio (neu nad oes ganddynt fynediad at) technoleg ddigidol gael mynediad cyfartal i'r bobl hynny sydd ar-lein
- Pa mor aml y cysylltir â phobl wrth iddynt aros ac a yw hyn yn ddigonol ar gyfer anghenion unigol.
- Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfathrebu (galwadau ffôn rheolaidd, llythyrau, ac ati) ac a yw'n hygyrch i bawb, gan gynnwys anwyliaid ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal.

Unwaith eto, yn aml gwelsom nad oedd pobl hŷn yn derbyn y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt gan ofal cymdeithasol. Gwelsom fod rhai awdurdodau lleol yn craffu ar yr ardal hon ac mae eraill yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu'r gwasanaeth yn ehangach er mwyn ceisio gwella'r maes.

Mae'r amrywiadau mewn cyfraddau trosi rhwng awdurdodau lleol a ddangosir yn gynharach yn awgrymu bod angen cwblhau mwy o waith yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf er mwyn gallu cyfeirio pobl hŷn yn haws at le gallant ddod o hyd i help.

Gwnaethom fanylu ar sut y gall newidiadau mewn ffyrdd o weithio weithiau arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran mynediad pobl hŷn at gyngor a gwybodaeth. Wrth i fwy o newidiadau gael eu gwneud, mae'n bwysig ystyried sut y gall pobl gael gafael ar wybodaeth a chyngor mewn modd mwy amserol.

Gwelsom hefyd fod gan rai awdurdodau lleol bryderon nad yw pobl sy'n aros am ofal yn gallu mynegi eu hanghenion.

Felly, mae'r argymhelliad hwn wedi aros yr un fath â'r argymhelliad y gwnaethom y llynedd.

## *Argymhelliad 3*

**Dylai awdurdodau lleol roi ffocws ychwanegol ar yr unigolion hynny sydd ar hyn o bryd yn aros yn fwy na 30 diwrnod ar gyfer asesiad anghenion gofal, neu sydd yn aros i becyn gofal gael ei roi ar waith.**

Yn ystod trafodaethau gydag awdurdodau lleol eleni ar yr argymhelliad hwn, dysgom fod rhai awdurdodau lleol wedi rhoi adnoddau ychwanegol i'r maes hwn.  Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion gwybodaeth a chyngor ychwanegol, a sefydlu gweithiwr cymdeithasol mewn timau gwaith cymdeithasol. Roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar restrau aros.

Roedd ein hargymhelliad y llynedd yn seiliedig ar y wybodaeth bod arosiadau bryd hynny yn cynyddu. Flwyddyn yn ddiweddarach rydym wedi gweld cynnydd mawr yn hyd yr arosiadau am ofal ac felly mae'n dal yn bwysig bod awdurdodau lleol yn gallu cefnogi'r rhai sy'n aros yn hirach.

## *Argymhelliad 4*

**Mae angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol a gwasanaethau'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd i wella'r cymorth ymyrryd ac atal cynharach sydd ar gael i bobl hŷn.**

Y llynedd gwnaethom argymell bod angen ffocws cenedlaethol ar ba help sydd ei angen ar bobl hŷn er mwyn aros yn dda, yn debyg i ddatblygiadau mewn gwasanaethau iechyd. Mae trafodaethau eleni yn dangos bod yr adnoddau ychwanegol y mae rhai awdurdodau lleol yn cyfeirio at eu pwyntiau cyswllt unigol, a chynnwys mwy o weithwyr cymdeithasol mewn timau dyletswydd, yn arwain yn araf at rai gwelliannau - ond dyw'r gwelliannau ddim mor effeithiol oherwydd bod iechyd pobl hŷn wedi gwaethygu.

Dywedodd awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw eleni wrthym ba mor hanfodol yw gwella ac ehangu mentrau atal ac ymyrraeth gynharach - yn enwedig gan fod rhai wedi syrthio ar fin y ffordd yn ystod y pandemig. Soniodd arweinwyr gofal cymdeithasol am gynnydd mewn teimladau o unigrwydd ymhlith llawer o bobl hŷn a sut mae cynyddu ymatebion dan arweiniad y gymuned yn helpu i leihau lefel y galw ar ofal cymdeithasol.

Mae'r lefelau uwch o angen ers y pandemig yn dangos bod gan y boblogaeth fynediad cyfyngedig at gyngor, gwybodaeth, gwasanaethau cyfeirio a gwasanaethau sydd eu hangen i gynnal iechyd a lles. Bydd poblogaeth afiach yn parhau i achosi galw mawr ar ofal cymdeithasol oni bai bod mwy o ymdrechion yn cael eu gwneud i wella gwydnwch cymunedol

## *Argymhelliad 5*

**Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid y trydydd sector yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy.**

Eleni clywsom eto gan arweinwyr gofal cymdeithasol nad yw darparu cyllid cynaliadwy yn hawdd. Dywedodd sawl un wrthym sut y gallai newidiadau yn y trefniadau contract helpu i ddarparu gwell cyfresi i bobl hŷn, er bod pryderon yn parhau ei fod yn anodd darparu cyllid grant yn hirdymor ac mewn ffordd gynaliadwy. Clywsom am sefyllfaoedd ble'r oedd staff wedi cael eu colli i wasanaethau wrth i gytundebau gael eu hadnewyddu'n rhy hwyr i fedru rhoi'r hyder i staff aros yn eu rolau.

Felly, mae'r argymhelliad hwn yn aros yr un fath â'r argymhelliad y gwnaethom y llynedd.

## *Argymhelliad 6*

**Mae angen pwyslais ar ddysgu rhwng awdurdodau lleol a rhannu arfer da. Bydd hyn yn lleihau faint o waith y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud, ac yn eu helpu i osgoi peryglon y mae awdurdodau lleol eraill wedi'u hwynebu.**

Mae hyn wedi aros yr un fath â'r argymhelliad y gwnaethom y llynedd.

Dywedodd llawer o'r awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo bod siarad â ni yn ddefnyddiol. Roedd y sgyrsiau hyn yn caniatáu amser penodol iddynt ganolbwyntio'n benodol ar ofal a chymorth i bobl hŷn.

## *Argymhelliad 7*

**Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol ac awdurdodau lleol hyrwyddo pwysigrwydd dilyn y Siarter ar gyfer Gofalwyr di-dâl.**

Mae hwn yn argymhelliad ychwanegol eleni oherwydd y cynnydd mewn faint o ofal di-dâl sy'n cael ei ddarparu.

Tra bod rhai awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn rhan o'r broses o wneud newidiadau er mwyn bodloni eu hanghenion, nid yw'r newid yn digwydd yn ddigon cyflym.

# *Cyfeiriadau*


i. ADSS 2019 Modelau ariannu arloesol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol Modelau Ariannu Arloesol i Ddiwallu Anghenion Gofal Cymdeithasol (adss.cymru)

ii. Milsom S & Breeze C, August 2020 Rebalancing Social Care: Adroddiad ar Wasanaethau Oedolion https://www.adss.cymru/en/blog/post/deliv ering-transformation-grant-programme-2019- 20-rebalancing-social-care-a-report-on-adult-services

iii. Gallai hyn fod yn rheolwr gwasanaeth, cyfarwyddwr gofal cymdeithasol neu reolwr tîm cymunedol.

iv. Er y bu cynnydd yn nifer yr Awdurdodau Lleol sy'n gallu darparu gwahaniaethau gwybodaeth i ni, wrth ddehongli'r cais am wybodaeth a sut y caiff data ei gasglu dim ond data tueddiadau sy'n ddibynadwy. Dim ond drwy ddefnyddio data sydd wedi cael ei rannu gyda ni gan Awdurdodau Lleol dros y blynyddoedd diwethaf y gallwn greu cymhariaeth dros nifer o flynyddoedd. Gan y bydd ein gwaith yn y maes hwn yn parhau mewn blynyddoedd i ddod, bydd y wybodaeth ychwanegol yn cael ei chynnwys bryd hynny.



Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad cofrestredig y swyddfa Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors,Caerdydd CF24 5TD. ©2023 Age Cymru.